

Adroddiad Arolygu o Bractis Meddygon Teulu (Lle Rhoddwyd Rhybudd)

Meddygfa Lansdowne, Bwrdd Iechyd
Prifysgol Caerdydd a'r Fro

Dyddiad yr arolygiad: 27 Mawrth 2023

Dyddiad cyhoeddi: 27 Mehefin 2023



Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein [gwefan](#) neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Neu

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: AGIC@llyw.cymru
Gwefan: www.agic.org.uk

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

Ein diben

Gwirio bod gwasanaethau gofal iechyd yn cael eu darparu mewn ffordd sy'n mwyafu iechyd a llesiant pobl.

Ein gwerthoedd

Mae pobl wrth wraidd yr hyn yr ydym yn ei wneud. Rydym yn:


- Annibynnol - rydym yn ddiuedd, yn penderfynu pa waith rydym yn ei wneud a lle rydym yn ei wneud
- Gwrthrychol - rydym yn rhesymol ac yn deg ac yn gweithredu ar sail tystiolaeth
- Pendant - rydym yn gwneud dyfarniadau clir ac yn cymryd camau i wella safonau gwael ac amlygu'r arferion da rydym yn dod ar eu traws
- Cynhwysol - rydym yn gwerthfawrogi ac yn annog cydraddoldeb ac amrywiaeth drwy ein gwaith
- Cymesur - rydym yn ystwyth ac yn gwneud ein gwaith lle mae o'r pwys mwyaf

Ein nod

Bod yn llais dibynadwy sy'n ysgogi gwelliant mewn gofal iechyd ac sy'n dylanwadu arno

Ein blaenoriaethau

- Byddwn yn canolbwyntio ar ansawdd y gofal iechyd a ddarperir i bobl a chymunedau wrth iddynt gyrchu gwasanaethau, eu defnyddio a symud rhyngddynt
- Byddwn yn addasu ein dull gweithredu i sicrhau ein bod yn ymatebol i risgiau i ddiogelwch cleifion sy'n dod i'r amlwg
- Byddwn yn cydweithio er mwyn ysgogi'r gwaith o wella systemau a gwasanaethau ym maes gofal iechyd
- Byddwn yn cefnogi ac yn datblygu ein gweithlu i'w galluogi nhw, a'r sefydliad, i gyflawni ein blaenoriaethau.



Cynnwys

1. Yr hyn a wnaethom	5
2. Crynodeb o'r arolygiad	6
3. Yr hyn a nodwyd gennym	10
• Ansawdd Profiad y Claf	10
• Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol	17
• Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth	26
4. Y camau nesaf	29
Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad	30
Atodiad B - Cynllun gwella ar unwaith	31
Atodiad C - Cynllun gwella.....	44

1. Yr hyn a wnaethom

Ceir manylion llawn am y ffordd rydym yn arolygu'r GIG ac yn rheoleiddio darparwyr gofal iechyd annibynnol yng Nghymru ar ein [gwefan](#).

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o Feddygfa Lansdowne, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro ar 27 Mawrth 2023.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys un Arolygydd Gofal Iechyd AGIC a thri adolygydd cymheiriaid clinigol. Arweiniwyd yr arolygiad gan un o Arolygwyr Gofal Iechyd AGIC.

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom wahodd y cleifion neu eu gofalwyr i gwblhau holiadur er mwyn dweud wrthym am eu profiad o ddefnyddio'r gwasanaeth. Cwblhawyd cyfanswm o 34 o holiaduron. Gwnaethom hefyd siarad â'r staff a oedd yn gweithio yn y gwasanaeth yn ystod ein harolygiad. Mae'r adborth a rhai o'r sylwadau a gafwyd yn ymddangos yn yr adroddiad.

Lle bo dyfyniadau yn y cyhoeddiad hwn, mae'n bosibl eu bod wedi cael eu cyfieithu o'u hiaith wreiddiol.

Nodwch fod canfyddiadau'r arolygiad yn ymwneud â'r adeg y cynhaliwyd yr arolygiad.

Mae'r adroddiad (llawn) hwn wedi'i gynllunio ar gyfer y lleoliad, ac mae'n disgrifio'r holl ganfyddiadau sy'n ymwneud â darparu gofal diogel a dibynadwy o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.

Mae fersiwn gryno o'r adroddiad, sydd wedi'i chynllunio ar gyfer aelodau'r cyhoedd, ar gael ar ein [gwefan](#).

2. Crynodeb o'r arolygiad

Ansawdd Profiad y Claf

Crynodeb cyffredinol:

Gwelsom fod y gwasanaeth yn gweithio'n galed i gynnig profiad gofalgar, proffesiynol a chadarnhaol i'r cleifion. Drwy gydol yr arolygiad, gwelsom fod aelodau o'r staff clinigol a'r staff anghlinigol yn siarad â'r cleifion a'u gofalwyr mewn ffordd garedig a'u bod yn barod i helpu. Roedd urddas a phreifatrwydd y cleifion yn cael eu parchu. Roedd bwth cyfrinachedd penodedig a oedd yn rhan o'r dderbynfa ac a oedd ar gael er mwyn gallu cynnal sgysiau sensitif rhwng cleifion a thîm y dderbynfa yn dystiolaeth o hyn.

Roedd cyflenwad o daflenni gwybodaeth i gleifion yn y practis ac roedd nifer o fentrau llesiant ar waith fel rhan o'r rhwydwaith gofal yn y gymdogaeth. Yn eu plith, roedd digwyddiad Parkrun gyda thîm y practis a phrosiect garddio er mwyn trechu unigrwydd ac ynysigrwydd cymdeithasol.

Roedd angen gwella'r trefniadau i gleifion a oedd yn awyddus i sgwrsio yn Gymraeg.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Datblygu ac annog y 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg
- Darparu ffurflenni cydsynio a gwybodaeth ysgrifenedig mewn amrywiaeth o fformatau (e.e. hawdd eu deall, print bras)
- Rhoi system 'Dywedoch chi, gwnaethom ni' ar waith i annog cleifion i roi adborth a chyflwyno awgrymiadau.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Cynnig amrywiaeth o ffyrdd i drefnu apwyntiadau, gan gynnwys dros y ffôn, drwy ap symudol ac wyneb yn wyneb
- Practis modern, croesawgar a golau â chyfleusterau parcio a mynediad gwastad i gleifion a'u gofalwyr, yn ogystal â system dolen sain
- Bwth cyfrinachedd cleifion er mwyn gallu cynnal sgysiau sensitif neu gyfrinachol â thîm y dderbynfa
- Cynnig mentrau llesiant fel Parkrun a'r prosiect garddio cymdeithasol.

Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Crynodeb cyffredinol:

Dangosodd ein canfyddiadau dîm clinigol ymroddedig a oedd yn anelu at roi gofal diogel ac effeithiol i'w gleifion. Fodd bynnag, nodwyd gennym fod angen gwneud

gwelliannau sylweddol o ran y gweithdrefnau ar gyfer rheoli meddyginiaethau a'r arferion atal a rheoli heintiau.

Roedd cofnodion meddygol y cleifion yn gynhwysfawr ac roedd angen gwneud mân welliannau er mwyn gwneud yn siŵr bod y codau Read priodol yn cael eu defnyddio.

Gwnaethom gadarnhau fod meddyginiaethau y mae angen eu cadw mewn oergell yn cael eu storio'n briodol a bod cofnodion data a gwiriadau tymheredd priodol ar waith. Fodd bynnag, rhaid sicrhau bod yr allwedd bob amser ar gael ar gyfer yr oergell feddyginiaeth er mwyn atal unrhyw achosion anfwriadol o dorri'r gadwyn oer.

Achosion lle mae angen sicrwydd ar unwaith:

Ni chafodd AGIC sicrwydd fod gan y practis weithdrefnau digon cadarn ar waith i sicrhau prosesau diogel ac effeithiol ar gyfer rheoli meddyginiaethau a chynnal a chadw dyfeisiau meddygol. Yn ystod yr arolygiad, nododd AGIC feysydd pryder mewn perthynas â phrosesau aneffeithiol ac amhriodol ar gyfer rheoli meddyginiaethau yn y practis. Roedd y rhain yn cynnwys storio meddyginiaethau a phadiau presgripsiwn mewn modd anniogel a brechlynnau yr oedd y dyddiad defnyddio ar eu cyfer wedi mynd heibio a oedd ar gael i'w defnyddio yn yr oergelloedd meddyginiaeth. Nid oedd dyddiad wedi'i nodi ar y protocolau imiwneiddio a oedd i'w gweld yn yr ystafelloedd clinigol. Roedd angen ailgalibradu un o'r otosgopau yn un o'r ystafelloedd clinigol gan nad oedd wedi cael ei archwilio na'i ailgalibradu ers 2016, ac roedd oergell a oedd yn cael ei defnyddio i storio samplau cleifion cyn eu hanfon i'r labordy yn gollwng ac roedd angen ei dadrewi. Roedd ffabrig un o'r gwelyau clinigol wedi rhwygo mewn sawl man a oedd yn golygu nad oedd modd ei ddihalogi'n briodol.

Ni chafodd AGIC sicrwydd fod gweithdrefnau digon cadarn yn y practis i wneud yn siŵr bod prosesau atal a rheoli heintiau bob amser yn cael eu rhoi ar waith. Roedd angen llenni preifatrwydd clinigol newydd yn y rhan fwyaf o'r ystafelloedd clinigol ac roedd sinc yn gollwng ar ben paciau triniaethau llawfeddygol wedi'u diheintio. At hynny, nid oedd posteri wedi cael eu lamineiddio ac nid oedd modd eu glanhau. Ni chawsom sicrwydd fod system digon cadarn ar waith yn y practis i wneud yn siŵr bod eitemau yr oedd y dyddiad defnyddio ar eu cyfer wedi mynd heibio, gan gynnwys eitemau wedi'u diheintio, yn cael eu gwaredu'n ddi-oed er mwyn sicrhau na chânt eu defnyddio. Oherwydd anawsterau recriwtio, ar adeg yr arolygiad, nid oedd nyrs atal a rheoli heintiau arweiniol yn y practis.

Roedd y cyffuriau a'r cyfarpar brys yn cael eu storio wrth ymyl biniau offer miniog llawn a oedd yn aros i gael eu casglu, gan beri risg y byddent yn cael eu halogi.

At hynny, ni chawsom gopi o bolisi neu weithdrefn dadebru'r practis na gweithdrefn briodol ar gyfer trin cleifion â llid yr ymennydd ac alergedd i benisilin.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Datblygu, gweithredu a chynnal polisi a gweithdrefn briodol ar gyfer rheoli meddyginiaethau, gan gynnwys trefniadau ar gyfer storio meddyginiaethau a phadiau presgripsiwn a deunyddiau yn ddiogel a threfniadau ar gyfer archebu deunyddiau yn lle deunyddiau y mae'r dyddiad defnyddio ar eu cyfer wedi mynd heibio a chael gwared ar ddeunyddiau o'r fath o'r ystafelloedd clinigol
- Rhoi gweithdrefnau atal a rheoli heintiau gwell ar waith, gan gynnwys hyfforddiant ffurfiol ar gyfer y nyrs atal a rheoli heintiau arweiniol, rhoi archwiliadau fel archwiliadau hylendid dwylo ar waith, cydymffurfiaeth gyffredinol â gweithdrefnau atal a rheoli heintiau, ac archwiliad o wastraff gofal iechyd
- Datblygu, gweithredu a chynnal polisi neu weithdrefn dadebru ar gyfer y practis a rhoi gweithdrefn briodol ar waith ar gyfer trin cleifion â llid yr ymennydd ac alergedd i benisilin
- Adleoli'r biniau offer miniog llawn sy'n aros i gael eu casglu i'w gwaredu, a storio biniau offer miniog sy'n cael eu defnyddio yn yr ystafelloedd clinigol yn ddiogel.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Amrywiaeth o ddulliau ar gyfer ailarchebu meddyginiaethau ar bresgripsiwn rheolaidd
- Llwybrau llywio gofal a threfniadau dyrannu gwasanaethau priodol
- Trefniadau gweithio ardderchog gyda'r grŵp clwstwr i ddarparu gwasanaethau er budd y cleifion fel prosiect llesiant 'Grow Well'.

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Crynodeb cyffredinol:

Ar y cyfan, cawsom sicrwydd fod yr uwch-reolwyr yn ymrwymedig i sicrhau bod aelodau tîm y practis yn cael eu cefnogi'n briodol yn eu rolau.

Roedd y prosesau recriwtio yn briodol ac roedd gwiriadau cyn cyflogi yn cael eu cwblhau mewn modd amserol. Roedd rhaglen sefydlu gynhwysfawr ar waith i staff locwm neu i aelodau newydd o staff y practis. Roedd arfarniadau yn cael eu cwblhau bob blwyddyn, ac roedd proses gefnogol ar waith yn y practis i aelodau o staff a oedd am godi pryder.

Roedd trefniadau gweithio'r clwstwr yn dda, ac roedd trefniadau rhagorol ar waith i ymgysylltu a rhannu gwybodaeth er mwyn annog practisau i rannu unrhyw wersi a ddysgwyd.

Nid oedd statws imiwneiddio'r staff yn cael ei gofnodi mewn ffordd addas ac nid oedd rhai aelodau o staff yr oedd angen ailddilysu eu statws hepatitis B wedi cwblhau'r broses hon ar adeg yr arolygiad.

Achosion lle mae angen sicrwydd ar unwaith:

Ni chafodd AGIC sicrwydd fod y systemau a'r gweithdrefnau rheoli sydd ar waith yn ddigon cadarn i sicrhau bod y practis yn cael ei lywodraethu mewn modd digonol. Yn ystod ein harolygiad, nododd AGIC fod angen gwella'r hyfforddiant gorfodol yn sylweddol a bod angen i'r tîm uwch-reolwyr oruchwylio'r broses yn well. Roedd hyn yn cynnwys diffyg hyfforddiant addas i bob aelod o'r staff clinigol ar gynnal bywyd sylfaenol, atal a rheoli heintiau, diogelu plant ac oedolion agored i niwed ac argyfyngau meddygol. At hynny, gwelsom dystiolaeth i ddangos nad oedd y practis na'i arferion clinigol yn cael eu harchwilio'n effeithiol.

Ni chawsom sicrwydd fod nifer addas o wardeniaid tân hyfforddedig ar gael yn y practis ac nid oedd swyddog cymorth cyntaf dynodedig.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Rhoi rhaglen hyfforddiant gorfodol ar waith a goruchwylio'r rhaglen honno yn unol â chanllawiau'r Cyngor Meddygol Cyffredinol
- Rhoi rhaglen ac amserlen archwilio ar waith
- Sicrhau bod nifer addas o wardeniaid tân hyfforddedig a swyddogion cymorth cyntaf dynodedig ar gael
- Datblygu, gweithredu a chynnal polisi a gweithdrefn gadarn ar gyfer gwirio a chadarnhau statws imiwneiddio'r staff.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd gan y practis dîm rheoli ymroddedig a chefnogol
- Ffeiliau staff cynhwysfawr
- Trefniadau cydweithio rhagorol â'r grŵp clwstwr meddygon teulu er mwyn rhannu'r gwersi a ddysgwyd a rhannu gwybodaeth.

Mae manylion y pryderon am ddiogelwch cleifion a'r gwelliannau a'r camau unioni sydd eu hangen ar unwaith yn [Atodiad B](#).

3. Yr hyn a nodwyd gennym

Ansawdd Profiad y Claf

Adborth gan Gleifion

Cyn ein harolygiad, gwahoddwyd y practis i ddosbarthu holiaduron AGIC i'r cleifion er mwyn cael eu barn ar y gwasanaeth a ddarperir yn y practis. Ar ddiwrnod yr arolygiad, siaradodd ein harolygwyr â chleifion hefyd er mwyn cael gwybod am eu profiadau yn y practis. Roedd sylwadau'r cleifion yn cynnwys y canlynol:

“Mae pob aelod o'r staff yn broffesiynol iawn ac yn hawdd mynd ato. Does dim byd y gallant ei wneud i wella”

“Maen nhw bob amser yn cymryd yr amser i roi tawelwch meddwl ac i asesu fi fy hun a'm plant. Cyfeillgar a phwyllog. Meddygfa hollol hyfryd.”

Gwnaethom ofyn beth y gellid ei wneud i wella'r gwasanaeth. Roedd y sylwadau yn cynnwys y canlynol:

“Ei gwneud hi'n haws trefnu apwyntiad. Mwy o gymorth mewn perthynas ag iechyd menywod. Mae'r broses ar gyfer gwneud unrhyw atgyfeiriadau sydd eu hangen yn araf, sy'n golygu fy mod yn gorfod aros amser hir am apwyntiad gynaeoleg”

Cadw'n Iach

Hybu Iechyd

Ar ddiwrnod ein hymweliad, gwelsom fod gan y practis meddygol doreth o gyngor a gwybodaeth hybu iechyd ysgrifenedig i gleifion. Roedd amrywiaeth o bosteri a byrddau gwybodaeth yn yr ystafell aros a oedd yn hybu ffordd iach o fyw ac roedd taflenni gwybodaeth i'r cleifion fynd â chopiau adref gyda nhw.

Cawsom wybod gan uwch-aelodau o'r staff, oherwydd problemau staffio, nad oeddent yn cynnig clinig rhoi'r gorau i smygu yn y practis mwyach ac y byddai cleifion yn cael eu cyfeirio at wasanaeth cenedlaethol “Dim Smygu Cymru” yn lle hynny.

Roedd gwasanaeth ffisiotherapi ar gael yn y practis y gallai cleifion hunangyfeirio ato ac roedd menter llesiant ar gael wedi'i rheoli gan y grŵp clwstwr meddygon teulu. Mae prosiect garddio cymunedol ar gael o'r enw "Grow Well Project", sydd ar waith ar dri safle sy'n rhan o'r grŵp clwstwr ac yn cael ei gynnal drwy gydol yr wythnos. Roedd y prosiect hwn yn anelu at annog llesiant a threchu unigrwydd ac ynysigrwydd cymdeithasol. Roedd mentrau pellach yn cael eu hysbysebu ar wefan y practis meddygol, gan gynnwys digwyddiad Parkrun wythnosol gyda thîm y practis.

Dywedodd uwch-aelodau o'r staff wrthym fod y practis yn defnyddio'r gwasanaeth cyswllt iechyd meddwl a ddarperir gan y bwrdd iechyd i gleifion yr oedd angen cymorth, cyngor ac arweiniad iechyd meddwl pellach arnynt.

Gofal ag urddas

Cyfathrebu ac Iaith

Gwelsom dîm o staff cyfeillgar a oedd yn barod i helpu yn y dderbynfa a oedd yn cyfarch cleifion mewn modd proffesiynol a chroesawgar.

Roedd cleifion yr oedd angen sgysiau cyfrinachol arnynt yn cael eu hannog i ddefnyddio bwth cyfrinachedd pwrpasol a oedd yn rhan o ardal y brif dderbynfa. Roedd hyn yn galluogi cleifion a staff y dderbynfa i siarad yn breifat ar sail un-i-un. Roedd peiriant pwysedd gwaed ar gael i'r cleifion yn y bwth hefyd.

Nid oedd yr ystafelloedd ymgynghori na'r ystafelloedd trin wedi'u lleoli wrth ymyl y brif ystafell aros. Roedd drysau'r ystafelloedd ymgynghori bob amser yn cael eu cadw ar gau pan oeddent yn cael eu defnyddio ac roedd llenni ar gael o amgylch y gwelyau archwilio er mwyn parchu urddas y cleifion.

Dywedodd uwch-aelodau o'r staff wrthym fod hebryngwyr gwrywaidd a benywaidd ar gael, a chawsom dystiolaeth o bolisi a oedd yn cyfeirio at ddefnyddio hebryngwyr. Roedd y ffaith bod hebryngwyr ar gael yn cael ei hysbysebu i gleifion drwy hysbysiadau a oedd i'w gweld yn ardal yr ystafell aros. Fel arfer, aelodau o dîm y dderbynfa fyddai'n darparu'r gwasanaeth hwn, gydag aelodau o'r tîm gweinyddol neu'r tîm rheoli yn gwneud hynny'n achlysurol. Dywedwyd wrthym fod aelodau o'r staff wedi cael hyfforddiant mewnol er mwyn sicrhau eu bod yn gymwys a'u bod yn teimlo'n hyderus wrth ddarparu'r gwasanaeth hwn.

Gwybodaeth i Gleifion

Gwelsom fod gan y practis wefan llawn gwybodaeth i gleifion â chyfleusterau digidol. Roedd yn cynnwys manylion y tîm o staff, oriau agor a'r trefniadau ar gyfer cael gafael ar help a chyngor y tu allan i oriau. Roedd dolen ar y wefan hefyd yn cynnig canllawiau ar archebu presgripsiynau rheolaidd yn ogystal â sut i gael gafael ar yr amrywiaeth o wasanaethau sydd ar gael yn y practis.

Roedd gwybodaeth gyfyngedig ar gael i gleifion drwy gyfrwng y Gymraeg, a hynny ar gais. Nid oedd llawer o arwyddion dwyieithog i'w gweld. Nid oedd unrhyw aelodau o staff y practis yn siarad Cymraeg ar adeg ein hymweliad. **Rydym yn argymhell y dylai'r practis wella faint o ddogfennau a thafleuni gwybodaeth sydd ar gael yn Gymraeg yn unol â'r 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg.**

Roedd gwybodaeth am broses gwyno'r GIG, Gweithio i Wella, wedi'i harddangos yn yr ardal aros. Fodd bynnag, roedd y wybodaeth hon wedi'i gosod mewn alcof yn yr ystafell aros ac nid oedd yn amlwg ar unwaith i'r cleifion. Yn ogystal, gwybodaeth wedi'i hargraffu o wefan y GIG oedd y wybodaeth a oedd i'w gweld. Roedd maint y testun yn fach ac ni fyddai modd i gleifion â nam ar eu golwg ei weld. Gallai cleifion â chyfleusterau digidol ddod o hyd i wybodaeth am sut i roi adborth i'r practis ar wefan y practis.

Byddem yn argymhell y dylai'r practis ystyried hygyrchedd y weithdrefn Gweithio i Wella sydd wedi'i harddangos yn y practis.

Gofal amserol

Gofal Amserol

Roedd Meddygfa Lansdowne ar agor rhwng 8am a 6:30pm o ddydd Llun i ddydd Gwener. Gallai cleifion gysylltu â'r feddygfa dros y ffôn, wyneb yn wyneb a thrwy ddefnyddio llwyfan ar-lein penodedig (E-consult). Byddai llwyfan E-consult hefyd yn cynnal asesiad risg ac yn cyfeirio cleifion at wasanaethau eraill addas pe byddai hynny'n briodol.

Nododd llawer o'r cleifion a gwblhaodd ein holiadur eu bod yn gallu cael apwyntiad ar yr un dydd pan oedd angen iddynt weld meddyg teulu ar frys, ond ar gyfer cleifion a oedd yn awyddus i drefnu apwyntiadau rheolaidd, nododd sawl un o'r cleifion a atebodd ein holiadur nad oeddent yn gallu cael apwyntiadau rheolaidd pan oedd eu hangen arnynt. Nododd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr eu bod yn cael cynnig dewis o fathau o apwyntiad.

Dyma rai o'r sylwadau a gafwyd:

“Nid wyf yn cael unrhyw broblemau wrth gael gafael ar wasanaethau'r practis.”

“[Hoffwn wella] Y gallu i drefnu apwyntiadau dros y ffôn heb i'r staff wneud i mi deimlo fy mod yn achosi anghyfleustra - maen nhw'n dweud bob tro y dylwn drefnu apwyntiad ar-lein ond mae'r system honno yn flinderus ac mae cymaint o gwestiynau nad ydynt yn

berthnasol neu nad ydynt yn ymwneud â'r rheswm. Mae'n helpu i gael cyfle i siarad â pherson go iawn."

Byddai cleifion a oedd yn ffonio'r practis i ofyn am apwyntiad yn cael eu sgrinio'n gyntaf gan aelod o dîm y dderbynfa. Dywedwyd wrthym fod staff y dderbynfa wedi cael hyfforddiant Llywio Gofal drwy fodiwl hyfforddiant ar-lein a ddarparwyd gan Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC). Roedd hyn yn golygu y gellid cyfeirio cleifion at wasanaethau eraill priodol os oedd angen. Roedd polisi ar waith i roi cymorth pellach i dîm y dderbynfa wrth iddynt ymgymryd â'r rôl hon ac roedd staff y dderbynfa yn gallu gofyn am gyngor gan y meddyg a oedd ar ddyletswydd os oedd unrhyw ansicrwydd.

Os oedd angen apwyntiad, byddai'r cleifion wedyn yn cael eu brysbennu gan y meddyg a oedd ar ddyletswydd. Byddai cleifion yr oedd angen apwyntiad brys arnynt yn cael cynnig apwyntiad ar yr un diwrnod. Dywedodd uwch-aelodau o'r staff wrthym nad oedd terfyn ar nifer y cleifion y gellid eu rhoi ar y rhestr brysbennu ddyddiol.

Roedd cleifion yr oedd angen cymorth iechyd meddwl arnynt yn cael eu brysbennu yn yr un ffordd. Roedd cleifion a oedd yn wynebu argyfwng neu yr oedd angen cymorth iechyd meddwl brys arnynt yn cael cyngor i ffonio 111. Roedd cleifion yr oedd angen ymyriadau â llai o frys ar eu cyfer yn cael cynnig cymorth a chyngor drwy wasanaeth nyrsys iechyd meddwl y gallai'r cleifion drefnu apwyntiadau ar ei gyfer. Roedd hyn yn cael ei gynnig drwy wasanaeth cyswllt gofal sylfaenol y clwstwr.

Roedd atgyfeiriadau gofal iechyd meddwl eilaidd at y Tîm Iechyd Meddwl Cymunedol (TIMC) yn cael eu rheoli gan system Porth Cyfathrebu Clinigol Cymru (WCCG). Os oedd yn debygol y byddai oedi, byddai cyngor yn cael ei roi, a byddai'r practis yn rhoi gofal interim. Roedd y gwasanaethau cymorth iechyd meddwl amgen a oedd ar gael drwy'r practis yn cynnwys gwasanaeth cymorth byw'n annibynnol ar gyfer anghenion cymdeithasol.

Byddai'r practis yn cymryd camau dilynol fel y bo'n briodol mewn perthynas â chleifion a oedd yn gofyn am ymyriadau argyfwng iechyd meddwl y tu allan i oriau. Roedd y practis yn cael ei hysbysu am ymyriadau argyfwng y tu allan i oriau drwy ffurflen asesu a fyddai'n cael ei hanfon ato. Byddai'r cleifion hyn yn cael eu trafod yn ystod cyfarfodydd boreol er mwyn gwneud yn siŵr bod pob aelod o'r staff yn ymwybodol o anghenion gofal uwch y cleifion hyn.

Gwnaethom siarad ag uwch-aelodau o'r staff er mwyn deall yr addasiadau sydd ar gael i helpu cleifion agored i niwed neu'r cleifion hynny â gofalwyr drefnu apwyntiadau. Dywedwyd wrthym y byddai addasiadau rhesymol yn cael eu gwneud

lle y bo'n bosibl a chawsom sawl enghraifft o addasiadau o'r fath. Roeddent yn cynnwys cynnig amseroedd dewisol ar gyfer apwyntiadau yn ogystal â chynnig gwasanaethau cyfieithu. Roedd apwyntiadau wyneb yn wyneb yn cael eu cynnig lle y bo'n briodol.

Wrth asesu anghenion gofalwyr di-dâl, ni nododd unrhyw rai o'r cleifion a ymatebodd i'n holiadur eu bod wedi cael cynnig asesiad o anghenion y gofalwr na'u bod wedi cael cynnig manylion sefydliadau neu rwydweithiau cymorth a allai ddarparu gwybodaeth a chyngor. **Rydym yn argymhell y dylai'r practis sicrhau bod gofalwyr yn ymwybodol o'u hawl i ofyn am asesiad o anghenion y gofalwr ac y caiff gwybodaeth ei rhoi fel mater o drefn am y sefydliadau a all gynnig cymorth, arweiniad a chyngor.**

Dywedwyd wrthym fod y feddygfa yn cynnig ymweliadau cartref i gleifion nad oeddent yn gallu dod i'r feddygfa ac mai'r meddyg ar ddyletswydd fyddai'n gyfrifol am yr ymweliadau hyn. Roedd y feddygfa yn gyfrifol am ddarparu gofal i gartrefi gofal lleol.

Gofal unigol

Gofal wedi'i Deilwra at yr Unigolyn

Roedd Meddygfa Lansdowne wedi'i lleoli mewn adeilad a adeiladwyd yn bwrpasol. Roedd y clwstwr meddygon teulu hefyd wedi'i leoli yn yr adeilad hwnnw.

Dywedwyd uwch-aelodau o'r staff wrthym fod y feddygfa wedi bod yn cynnig brechlyn rhag ffliw'r gaeaf. Roedd y broses hon yn cael ei rheoli'n bennaf gan feddygon teulu'r practis gyda rhywfaint o gymorth gan nyrs y practis pan oedd ar gael. Roedd clinigau brechu ar gael ar benwythnosau er mwyn sicrhau eu bod yn gyfleus i gleifion na fyddent o bosibl wedi gallu dod i'r clinig ar unrhyw adeg arall. Roedd ymdrechion penodol i annog unigolion i gael y brechlyn, gan gynnwys negeseuon atgoffa drwy lythyr, negeseuon testun ac ar bosteri yn y practis. Lle y bo'n briodol, byddai'r meddygon teulu hefyd yn atgoffa cleifion am y brechlyn yn ystod ymgynghoriadau.

Gwnaethom edrych ar y polisi cydsynio a oedd ar waith yn y feddygfa. Roedd yn cydymffurfio â'r gofynion ac yn cynnwys yr holl fanylion perthnasol. Roedd dyddiad a rhif fersiwn wedi'u nodi ar y polisi, ac roedd dyddiad priodol ar gyfer adolygu'r polisi. **Fodd bynnag, rydym yn annog y feddygfa i ystyried anghenion y cleifion hynny sy'n awyddus i gyfathrebu drwy gyfrwng y Gymraeg, neu'r rhai hynny y mae angen fersiynau hawdd eu deall arnynt wrth edrych ar y ddogfen hon.**

Wrth ystyried hygyrchedd y feddygfa hon, gwelsom fod system dolen sain ar gael i'w defnyddio yn y practis, yn ogystal â gwasanaeth cyfieithu dros y ffôn. Byddai

cleifion ag anghenion dysgu ychwanegol a oedd yn cael mân driniaethau llawfeddygol yn cael cymorth gan y practis i gwblhau'r broses gydsynio. Byddai galwad ffôn ddilynol drannoeth yn annog trafodaeth am y ffurflen gydsynio ac yn cynnig cyfle i ateb unrhyw gwestiynau a allai fod ganddynt. Byddai manylion yn cael eu ar gofnod cleifion unrhyw unigolion yr oedd angen addasiadau arnynt er mwyn cael mynediad i'r feddygfa er mwyn gwneud yn siŵr bod yr addasiadau hyn ar waith pan fyddent yn dod i'r feddygfa. Roedd maes parcio i gleifion yn y feddygfa hefyd.

Roedd y coridorau a'r drysau yn llydan, ac yn cynnig digon o le i gleifion sy'n defnyddio cadair olwyn ac roedd yr ardaloedd i'r cleifion wedi'u lleoli ar lawr gwaelod yr adeilad, felly nid oedd angen defnyddio unrhyw risiau. Fodd bynnag, nid oedd prif ddrysau mynedfa'r adeilad yn awtomatig a byddent yn anodd i glaf â gofynion hygyrchedd eu hagor pe byddai'n dod i'r practis ar ei ben ei hun. **Felly dylai'r feddygfa ystyried sut i sicrhau hygyrchedd i gleifion o'r fath.**

Nid oedd gan y feddygfa unrhyw wybodaeth ar gael yn hwylus i gleifion mewn amrywiaeth o fformatau fel braille neu hawdd eu deall. Dywedwyd wrthym pe byddai angen gwybodaeth ysgrifenedig mewn fformat print bras amgen ar glaf, fod fformatau o'r fath ar gael ar gais. **Rhaid i'r feddygfa sicrhau bod gwybodaeth ar gael mewn amrywiaeth o fformatau, fel braille neu hawdd eu darllen, i gleifion ag anawsterau dysgu.**

Hawliau a Chydraddoldeb

O'r cleifion a holwyd, dywedodd bron pob un ohonynt eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu trin ag urddas a pharch wrth fynd i'r practis am apwyntiad wyneb yn wyneb.

Yn ystod ein trafodaethau ag uwch-aelodau o'r staff, dywedwyd wrthym fod Polisi Cydraddoldeb ac Amrywiaeth ar waith yn y practis. Roedd y staff hefyd yn cwblhau hyfforddiant Cydraddoldeb ac Amrywiaeth. Roedd hyn yn helpu i sicrhau bod y staff a'r cleifion bob amser yn cael eu trin yn deg.

Roedd system adborth ar waith yn y practis er mwyn gallu uwchgyfeirio unrhyw bryderon am driniaeth annheg neu anghyfartal i dîm rheoli'r practis. Roedd y practis yn dosbarthu holiadur i'r staff er mwyn gwneud yn siŵr bod unrhyw bryderon yn cael eu nodi a bod camau gweithredu yn cael eu cymryd i ysgogi gwelliannau, os oedd eu hangen, er mwyn trin pob aelod o'r staff yn deg.

Roedd y practis yn cymryd camau rhagweithiol i barchu hawliau cleifion trawsryweddol. Gwelsom fod cleifion trawsryweddol yn cael eu trin mewn modd sensitif, a bod y practis yn ymateb yn brydlon i unrhyw ddatgeliad. Dywedwyd wrthym y byddai'r cofnodion yn cael eu newid i adlewyrchu'r defnydd o unrhyw

enw newydd a rhagenwau ac y byddai rhif GIG newydd yn cael ei anfon at y claf mewn modd amserol er mwyn sicrhau bod y cofnodion yn cael eu cadw yn y man priodol.

Ymgysylltu â Phobl, Adborth a Dysgu

Roedd blwch awgrymiadau cleifion ar gael yn ardal aros y practis. Fodd bynnag, ni welsom unrhyw ddull ar gyfer rhoi adborth i'r cleifion pan oedd yr awgrymiadau wedi cael eu rhoi ar waith. **Rydym yn argymhell y dylai'r practis ystyried hysbysfwrdd 'Dywedoch chi, gwnaethom ni' i ddangos manylion y gwelliannau a wnaed o ganlyniad i awgrymiadau gan gleifion.**

Roedd y polisi a'r weithdrefn gwyno yn cydymffurfio â gweithdrefn Gweithio i Wella'r GIG, gan gynnig canllawiau i gleifion a'u gofalwyr pe byddent am gwyno. Nodwyd gennym hefyd nad oedd y polisi wedi cael ei adolygu ers cryn amser ac mae'r dyddiad adolygu disgwylidig oedd mis Hydref 2022. **Mae angen i'r practis adolygu'r polisi hwn er mwyn sicrhau bod y rolau a'r cyfrifoldebau y cyfeirir atynt yn gyfredol.**

Gwelsom dystiolaeth o gofnodlyfr cwynion a oedd yn cael ei gadw gan y practis. Roedd yn cynnwys manylion yr achwynydd, dyddiad derbyn y gŵyn a'r unigolyn penodol a oedd yn gyfrifol am oruchwyllo'r gŵyn a'r camau i'w datrys. Dangosodd ein hadolygiad o'r gofnodlyfr cwynion ymdrechion i sicrhau canlyniad boddhaol i bob parti. Gwelsom fod cwynion yn cael eu datrys a'u cau mewn modd amserol. Roedd ffolder ar wahân a gawsom yn cynnwys copïau o lythyrau cwyno a'r ymatebion ysgrifenedig i bob un ohonynt. Cawsom sicrwydd fod y practis yn ymdrin â chwynion mewn modd cadarn ac amserol a'i fod yn uwchgyfeirio cwynion yn briodol lle na ellid eu datrys.

Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Gofal Diogel

Rheoli Risg

Gwelsom fod yr ardaloedd i'r cleifion yn anniben ac yn cynnwys cyfarpar a deunyddiau, yr oedd y dyddiad defnyddio ar lawer o'r eitemau hyn wedi mynd heibio. Gwelsom dystiolaeth o gyfarpar nad oedd yn cael ei ddefnyddio mwyach, wedi'i storio y tu ôl i wely archwilio. **Rhaid i'r practis sicrhau y caiff cyfarpar diangen ei symud o'r ardaloedd clinigol ac y caiff ei storio'n briodol pan na fydd yn cael ei ddefnyddio.**

Gwelsom nad oedd biniau offer miniog bob amser yn cael eu storio'n briodol yn yr ardaloedd clinigol a'u bod wedi'u gosod mewn modd anniogel ar ben arwynebeddau gwaith yn hytrach na'u gosod yn sownd wrth y waliau er mwyn atal achosion o'u troi drosodd neu blant yn mynd atynt. **Rhaid i'r practis sicrhau y caiff biniau offer miniog eu storio'n briodol yn yr ardaloedd clinigol er mwyn atal achosion o'u troi drosodd a'r risg gysylltiedig o ran anafiadau o nodwyddau.**

Roedd y Cynllun Parhad Busnes yn ymdrin yn ddigonol â'r risg i'r bartneriaeth fusnes gan gynnwys cynlluniau wrth gefn ar gyfer absenoldeb tymor hir ymhlith aelodau o'r staff, ac roedd wedi cael ei ddiweddarau i adlewyrchu trefniadau priodol ar gyfer rheoli COVID-19 ac argyfyngau iechyd sylweddol eraill pe byddent yn codi. Roedd yn cael ei gadw ar-lein ac ar ffurf copi caled yn y practis ac roedd pob aelod o'r staff yn ymwybodol ohono.

Nodwyd gennym fod botymau panig ym mhob rhan o'r practis er mwyn galw am help. Dangosodd ein trafodaethau â'r staff eu bod yn gwybod sut i ddefnyddio'r system hon pe byddai ei hangen.

Roedd y cyffuriau a'r cyfarpar brys yn cael eu cadw yn yr olchfa, ac roedd arwydd ar y drws yn nodi hyn. Dangosodd ein trafodaethau â'r staff fod pob aelod o'r staff yn ymwybodol o leoliad y cyfarpar brys, a byddai unrhyw aelodau newydd o staff yn cael rhaglen sefydlu a oedd yn cynnwys lleoliad y cyfarpar hwn a chynnwys y troli cyffuriau brys.

Ar adeg ein hymweliad, roedd y practis yn hysbysebu ei fod yn cynnig gwasanaeth mân driniaethau llawfeddygol i gleifion. Fodd bynnag, gwelsom nad oedd gan y practis gyflenwad parod o Atropine i drin bradycardia wrth gynnal triniaeth llawfeddygol. Rhaid i'r cyffur hwn fod ar gael i glinigwyr wrth gynnal mân driniaethau llawfeddygol. Gwnaethom drafod hyn ag uwch-aelodau o'r staff yn ystod yr arolygiad a dywedwyd wrthym nad oedd y practis yn cynnig mân

driniaethau llawfeddygol ar hyn o bryd. **Os bydd y practis yn penderfynu ailddechrau'r gwasanaeth mân driniaethau llawfeddygol, rydym yn argymhell y dylid sicrhau bod Atropine ar gael cyn cynnal mân driniaethau llawfeddygol.**

Gwnaethom adolygu'r trefniadau diogelwch tân a oedd ar waith yn y practis. Roedd nifer addas o hysbysiadau camau diogelwch tân wedi'u gosod mewn lleoliadau strategol ym mhob rhan o'r practis. Yn ogystal, gwelsom fod cyfarpar diffodd tân ar gael yn hwylus. Roeddent wedi cael eu profi'n ddiweddar. Fodd bynnag, o'n trafodaethau â'r staff, nid oeddem yn teimlo'n hyderus bod pob aelod o'r staff yn gwbl ymwybodol o'r camau i'w cymryd os bydd tân. Roedd rhywfaint o ddryswch ymhlith uwch-aelodau o'r staff o ran cyfrifoldeb y warden tân. **Rhaid i'r practis sicrhau bod pob aelod o'r staff wedi ymgymryd â hyfforddiant diogelwch tân addas. Yn ogystal, er mwyn caniatáu ar gyfer adegau pan fydd staff yn absennol, rhaid i'r practis sicrhau bod nifer addas o wardeniaid tân hyfforddedig.**

Dywedwyd wrthym am bryderon o ran amseroedd aros am ambiwlansys i gleifion. Mewn rhai achosion, oherwydd amseroedd aros eithriadol, roedd aelodau o'r staff meddygol wedi trosglwyddo cleifion i'r ysbyty eu hunain oherwydd eu cyflwr meddygol.

Dywedodd uwch-aelodau o'r staff wrthym eu bod yn gweithio'n effeithiol gyda'r grŵp clwstwr i wella gofal i gleifion. Yn ystod ein hymweliad, gwelsom fod canolfan y clwstwr yn rhan o adeilad y practis a bod arweinydd y clwstwr wedi gweithio fel un o bartneriaid meddygon teulu'r practis yn flaenorol, cyn iddo ymddeol.

Atal a Rheoli Heintiau a Dihalogi

O'r cleifion a ymatebodd i'n holiadur, nododd pob un ohonynt eu bod o'r farn bod y practis yn 'eithaf glân neu'n lân iawn' a gwelsom fod y practis wedi parhau i ddefnyddio rhai o'r rhagofalon a roddwyd ar waith yn wreiddiol yn sgil pandemig COVID-19. Roedd hyn yn cynnwys sgrin Perspex wrth ddesg y dderbynfa a darparu masgiau wyneb i gleifion a'u gofalwyr. Roedd peiriannau puro aer hefyd ar gael ym mhob ystafell archwilio er mwyn diogelu'r staff a'r cleifion.

Gwelsom fod cyfarpar diogelu personol (PPE) ar gael yn hwylus yn yr ardaloedd clinigol a chawsom sicrwydd fod rhagofalon addas ar waith yn y practis i weld cleifion a oedd yn dod i'r feddygfa â heintiau a drosglwyddir drwy anadlu heb beri risg i'r cleifion eraill. Dywedodd uwch-aelodau o'r staff wrthym fod y staff wedi cael hyfforddiant ar y dulliau cywir ar gyfer gwisgo a diosg PPE yn ystod y pandemig a chadarnhawyd hyn gan ein harsylwadau drwy gydol ein hymweliad, a ddangosodd fod y staff yn gwisgo'r PPE priodol wrth drin cleifion.

Fodd bynnag, dangosodd ein harsylwadau o weithdrefnau atal a rheoli heintiau a dihalogi yn y practis meddygol fod angen gwella sawl maes yn sylweddol.

Yn ôl ein hasesiad o amgylchedd y practis, nid oedd yr ardaloedd clinigol yn cael eu glanhau'n briodol. Gwelsom dystiolaeth o lwch ac annibendod mewn rhai ardaloedd ac roedd cyfarpar a deunyddiau yn cael eu storio mewn modd peryglus ar arwynebeddau gwaith yn yr ystafelloedd clinigol a'r olchfa. Roedd y peiriannau hylif diheintio dwylo i gleifion a oedd wedi'u lleoli ym mhob rhan o'r practis yn aml yn wag, yn ôl yr hyn a welwyd gan y tîm arolygu. Nid oedd posteri a gwybodaeth a oedd wedi'u harddangos ar hysbysfyrddau yn yr ardal aros i gleifion a'r ystafelloedd clinigol wedi cael eu lamineiddio'n briodol er mwyn gallu eu glanhau'n effeithiol.

Nid oedd yr holl lenni clinigol a oedd yn cael eu defnyddio i gynnal preifatrwydd ac urddas y cleifion yn cydymffurfio â'r canllawiau ar gyfer atal a rheoli heintiau. Er bod rhai ohonynt yn llenni papur tafladwy cymeradwy, nid oedd dyddiad wedi'i nodi ar lawer ohonynt. Roedd y llenni wedi bod yno ers dros dair blynedd ac roedd angen gosod llenni newydd. Roedd llenni preifatrwydd eraill wedi'u gwneud o ffabrig trwchus ac nid oedd dyddiadau wedi'u nodi arnynt ar gyfer eu hadnewyddu.

Wrth arsylwi ar yr ystafelloedd clinigol, gwelsom eitemau niferus a oedd wedi cael eu gadael ar droliau mewn modd peryglus ac ar arwynebeddau gwaith ac wedi'u hamlygu i'r aer. Roedd yr eitemau hyn yn cynnwys brwshys cytolog serfigol a oedd yn cael eu defnyddio i gasglu celloedd wrth gynnal profion ceg y groth, peli gwlan cotwm yn ogystal â ffedogau untro.

Yn ystafelloedd archwilio a thrin clinigol y feddygfa, nodwyd bod y dyddiad defnyddio wedi mynd heibio ar eitemau wedi'u diheintio, a oedd yn cael eu defnyddio i drin cleifion yn uniongyrchol, gan gynnwys pwythau, tyllwyr biopsi a photiau histoleg, menig wedi'u diheintio, potiau casglu samplau wrin, tiwbiau ocsigen, jeli iro a swabiau a pheccynau mân driniaethau llawfeddygol. Ni ellid gwarantu bod yr eitemau hyn yn ddi-haint.

Nodwyd bod eitemau y gellir eu haildefnyddio fel otosgopau yn llychlyd, ac roedd papur ac anhrefn ar y desgiau a'r walïau, gan atal prosesau glanhau effeithiol.

Nid oedd eitemau glân ac eitemau halogedig yn cael eu cadw ar wahân yn briodol yn yr olchfa. Un enghraifft amlwg oedd y binïau offer miniog llawn a oedd yn aros i gael eu casglu a oedd wedi'u storio wedi'u pentyrru yn erbyn y troli cyffuriau brys.

Dywedwyd wrthym gan uwch-aelodau o'r staff mai'r nyrs a benodwyd yn ddiweddar ar gyfer y practis oedd arweinydd atal a rheoli heintiau'r practis. Fodd bynnag, ni chawsom unrhyw dystiolaeth ar ddiwrnod ein hymweliad fod yr aelod hwn o staff wedi cael hyfforddiant priodol i ni allu cael sicrwydd y gallai ymgymryd â'r rôl hon

mewn modd cymwys. At hynny, ni chynigiwyd unrhyw dystiolaeth i ddangos bod archwiliad atal a rheoli heintio nac archwiliad hylendid dwylo wedi cael ei gwblhau'n ddiweddar.

Ymdriniwyd â'r materion hyn o dan broses sicrwydd ar unwaith AGIC, lle gwnaethom ysgrifennu at y practis yn gofyn iddo wneud gwelliannau ar unwaith. Ers hynny, rydym wedi cael sicrwydd boddhaol o welliannau yn y meysydd hyn.

Roedd y practis yn defnyddio cwmni glanhau ar gontract i ymgymryd â'r gwaith glanhau anghlinigol a gwelsom dystiolaeth fod contract ar waith ar gyfer cael gwared ar wastraff clinigol o'r practis. Fodd bynnag, ni welsom archwiliad rheoli gwastraff diweddar.

Roedd tapiau a oedd yn cael eu gweithredu â phenelin ar y sinciau yn yr ardaloedd clinigol a gwelsom fod llawr 'capiu a chilfwâu' addas yn yr ystafelloedd clinigol er mwyn gallu eu glanhau. Roedd yr arwynebeddau gwaith wedi'u gwneud o ddeunydd y gellid ei sychu ac roedd modd glanhau'r cadeiriau yn y practis hefyd. **Gwelsom fod systemau gorlif a phlygiau ar y sinciau, felly byddem yn argymhell y dylai'r practis ystyried eu haddasu'n unol â chanllawiau atal a rheoli heintiau.**

Rheoli Meddyginiaethau

Dywedwyd wrthym y gallai cleifion ofyn am bresgripsiwn rheolaidd mewn amrywiaeth o wahanol ffyrdd, gan gynnwys wyneb yn wyneb, drwy ap ffôn symudol neu drwy anfon e-bost i'r practis neu ddefnyddio'r gwasanaeth a ddarparwyd gan y fferyllfeydd lleol.

Byddai aelod hyfforddedig o'r staff yn ymdrin â cheisiadau am bresgripsiynau rheolaidd drwy system rota. Byddai'r presgripsiwn yn cael ei ysgrifennu a'i roi wedyn i glinigydd i'w wirio a'i lofnodi. Byddai wedyn yn cael ei storio'n ddiogel cyn i'r claf ei gasglu neu'n cael ei anfon yn uniongyrchol at fferyllfa a ddewiswyd gan y claf. Er mwyn atal cleifion rhag gordefnyddio meddyginiaeth, byddai dau glerc presgripsiynau yn gwirio ceisiadau am bresgripsiynau rheolaidd. Byddai hefyd angen i'r cleifion gael adolygiadau o'u meddyginiaethau fel y bo angen. Cawsom dystiolaeth o bolisiau a oedd ar waith gan y practis a oedd yn amlinellu'r prosesau hyn. Ar adeg ein hymweliad, roedd y polisiau hyn wrthi'n cael eu hadolygu.

Cawsom sicrwydd fod y staff clinigol yn ymwybodol o'r cynllun adrodd cerdyn melyn ar gyfer effeithiau andwyol. Ar ôl rhoi gwybod am unrhyw effeithiau o'r fath, byddai cofnodion meddygol y claf hefyd yn cael eu diweddar.

Er nad oedd y practis yn dosbarthu meddyginiaethau ei hun, roedd yn cadw nifer cyfyngedig o feddyginiaethau ar y safle, gan gynnwys brechlyn rhag ffliw'r gaeaf i oedolion a phlant. Cawsom gopi o bolisi cadwyn oer cyfredol er mwyn sicrhau dulliau storio diogel a gwelsom fod tymereddau'r oergell lle roedd y brechlynnau yn cael eu cadw yn cael eu gwirio a'u cofnodi'n rheolaidd drwy ddulliau electronig. Gwelsom fod cofnodwr data wedi'i osod ar yr oergell er mwyn cofnodi unrhyw adegau lle na fyddai'r oergell ar dymheredd derbyniol. Fodd bynnag, ni welsom unrhyw restr wirio i ddangos bod y practis yn cydymffurfio â'r weithdrefn cadwyn oer ac er bod modd cloi'r oergell, nid oedd allwedd ar gael ar ei chyfer yn ystod ein hymweliad. Er bod sticer wedi'i osod ar y soced trydanol ar gyfer yr oergell yn hysbysu'r staff na ddylid ei diffodd, nid oedd yn gwbl amlwg ac roedd wedi'i guddio'n rhannol gan y plwg.

Wrth edrych ar y gweithdrefnau ar gyfer rheoli meddyginiaethau, gwelsom lefelau cydymffurfiaeth gwael â'r polisiau a'r gweithdrefnau rheoli meddyginiaethau. Nid oedd llawer o'r meddyginiaethau yn cael eu storio'n ddiogel ac nid oedd llawer o drefn.

Roedd brechlynnau ffliw i blant yr oedd y dyddiad defnyddio ar eu cyfer wedi mynd heibio yn yr oergell brechlynnau. Roedd meddyginiaethau wedi'u labelu i gleifion yn cael eu storio mewn cypyrddau nad oeddent wedi'u cloi yn yr ardaloedd clinigol. Roedd y meddyginiaethau hyn yn cynnwys pigladau B12, meddyginiaethau a oedd yn cael eu defnyddio i drin canser y fron a phigiadau atal cenhedlu.

Roedd canllawiau imiwneiddio nad oedd dyddiad wedi'i nodi arnynt neu nad oeddent yn gyfredol wedi'u gosod ar yr hysbysfyrddau yn yr ystafelloedd trin. Nid oedd yn glir a oedd y canllawiau hyn yn cydymffurfio â'r canllawiau cyfredol ac fel y cyfryw, gallent achosi dryswch i staff locwm neu staff dros dro.

At hynny, roedd taflen bresgripsiwn wag wedi'i storio'n annigol yn nrôr desg ystafell glinigol.

O ganlyniad i'r canfyddiadau hyn, ymdriniwyd â'r materion hyn o dan broses sicrwydd ar unwaith AGIC, lle gwnaethom ysgrifennu at y practis yn gofyn iddo wneud gwelliannau ar unwaith. Ers hynny, rydym wedi cael sicrwydd boddhaol o welliannau yn y meysydd hyn.

Diogelu Plant ac Oedolion

Gwnaethom edrych ar y polisiau a'r gweithdrefnau diogelu a oedd ar waith yn y practis meddygol. Gwelsom fod arweinydd diogelu dynodedig yn y practis, sef un o feddygon teulu'r practis, a chawsom dystiolaeth o bolisi diogelu cyfredol a oedd wedi cael ei adolygu'n rheolaidd. Yn ogystal, cadarnhawyd bod pob aelod o'r staff yn gallu cael gafael ar Weithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan.

Yn dilyn trafodaethau ag uwch-aelodau o'r staff, cawsom sicrwydd fod system gadarn ar waith gan y practis i sicrhau bod plant ac oedolion agored i niwed yn cael eu diogelu'n effeithiol. Byddai cyfarfodydd diogelu dynodedig wedi'u cadeirio gan yr arweinydd diogelu ac yn cynnwys eraill o'r rhwydwaith gofal sylfaenol ehangach fel bydwagedd ac ymwelwyr iechyd yn cynnig cyfleoedd i drafod achosion yr oedd angen eu huwchgyfeirio. Byddai marciwr dynodedig clir hefyd yn cael ei roi ar gofnodion meddygon oedolion a phlant sy'n wynebu risg er mwyn gwneud yn siŵr bod y staff yn cael eu hatgoffa o unrhyw bryderon diogelu uwch.

Fodd bynnag, nododd ein hadolygiad o hyfforddiant diogelu gorfodol yn y practis nad oedd sawl aelod o staff y practis, gan gynnwys rhai meddygon teulu, wedi ymgymryd â hyfforddiant diogelu diweddar. **Er mwyn sicrhau bod y staff yn ymwybodol o'r canllawiau diweddaraf ar ddiogelu plant ac oedolion agored i niwed, rydym yn argymhell y dylai'r practis sicrhau bod pob aelod o'r staff yn cael hyfforddiant diogelu rheolaidd yn unol â'r canllawiau diweddaraf.**

Rheoli Dyfeisiau a Chyfarpar Meddygol

Ar ddiwrnod ein hymweliad, gwelsom fod y rhan fwyaf o'r dyfeisiau a'r cyfarpar meddygol mewn cyflwr da ac wedi'u cynnal a'u cadw'n dda. Fodd bynnag, nodwyd gennym, yn ôl pob golwg, nad oedd rhai o'r dyfeisiau a'r cyfarpar meddygol yr oedd angen eu calibradu wedi cael eu calibradu. **Rydym yn argymhell y dylai'r practis ddatblygu a chadw cofnodlyfr i sicrhau y caiff dyfeisiau a chyfarpar meddygol eu cynnal a'u cadw'n unol â chanllawiau'r gwneuthurwr a chanllawiau clinigol, gan gynnwys gwiriadau ailgalibradu.**

Gwelsom fod cyfarpar untro ar gael mewn rhai o'r ystafelloedd clinigol ac i gleifion a oedd yn cael mân driniaethau llawfeddygol yn y practis. Fodd bynnag, roedd cyfarpar aml-ddefnydd yn cael ei ddefnyddio yn rhai o'r ystafelloedd clinigol o hyd. **Er mwyn atal dryswch a chydymffurfio â chanllawiau atal a rheoli heintiau, rydym yn argymhell y dylai'r practis sicrhau bod cyfarpar untro ar gael i glinigwyr lle bynnag y bo'n bosibl.**

Roedd yr olchfa yn cynnwys oergell diodydd a oedd yn cael ei defnyddio i storio samplau cleifion cyn iddynt gael eu trosglwyddo i'r labordy. Nodwyd gennym nad oedd yr oergell hon mewn cyflwr da ac nad oedd unrhyw wiriadau tymheredd yn cael eu cynnal arni. Roedd hyn yn amlwg o'r croniad o iâ a oedd i'w weld tuag at gefn yr oergell yr oedd angen ei ddadrewi a'r ffaith bod sylwedd anhysbys yn gollwng ar y gwaelod. Roedd tywelion papur gwlyb ar waelod yr oergell er mwyn ceisio ei hatal rhag gollwng. Gwelsom fod yr oergell hon yn storio pecynnau oer tafladwy yn ogystal â blociau iâ a fyddai fel arfer yn cael eu rhewi mewn rhewgell. Ar ddiwrnod ein hymweliad, gwelsom fod yr oergell hon yn cael ei defnyddio i storio sampl claf.

Wrth asesu un ystafell glinigol, gwelsom fod y sinc yn gollwng oddi tani a hynny'n syth ar ben paciau triniaethau llawfeddygol wedi'u diheintio a bod hynny wedi halogi'r paciau hynny. Yn ogystal, nodwyd gennym fod darnau o gyfarpar yn yr ystafell hon mewn cyflwr gwael. Roedd hyn yn cynnwys gwely archwilio a oedd yn cael ei ddefnyddio gan ffisiotherapydd sy'n ymweld â'r practis a oedd wedi rhwygo mewn sawl man ac nad oedd modd ei lanhau'n briodol o ganlyniad i hynny.

Gwnaethom edrych ar y cyfarpar brys a nodwyd bod y diffibriliwr allanol awtomataidd (AED) wedi'i wefru a bod y dyddiad ar y batris yn gyfredol. Gwelsom dystiolaeth o restr gwirio a oedd yn dangos y byddai'r cyffuriau a'r cyfarpar brys yn cael eu harchwilio bob wythnos yn unol â chanllawiau Cyngor Dadebru'r DU.

Fodd bynnag, nodwyd gennym fod y dyddiad defnyddio wedi mynd heibio ar y masgiau ocsigen i oedolion a phlant a oedd yn rhan o'r cyfarpar brys a bod angen archebu rhai newydd.

O ganlyniad i'r canfyddiadau hyn, ymdriniwyd â'r materion hyn o dan broses sicrwydd ar unwaith AGIC, lle gwnaethom ysgrifennu at y practis yn gofyn iddo wneud gwelliannau ar unwaith. Ers hynny, rydym wedi cael sicrwydd boddhaol o welliannau yn y meysydd hyn.

Gofal effeithiol

Gofal Effeithiol

Dangosodd ein trafodaethau â'r uwch-staff meddygol yn y practis ymroddiad a gofal gwirioneddol tuag at y cleifion. Roedd y practis yn gwneud yn siŵr bod y staff yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am arferion gorau, canllawiau cenedlaethol a phroffesiynol a ffyrdd newydd o weithio drwy ymgysylltu â'r grŵp clwstwr. Byddai cyfarfodydd rheolaidd yn sicrhau bod rhybuddion a newidiadau i ganllawiau clinigol yn cael eu dosbarthu'n briodol. Wedyn, byddent yn cael eu hanfon drwy e-bost at y staff.

Dyweddodd rheolwr y practis wrthym am y trefniadau ar gyfer sicrhau bod rhybuddion diogelwch cleifion yn cael eu derbyn a bod camau gweithredu yn cael eu cymryd mewn ymateb iddynt mewn modd prydlon ac amserol. Rheolwr y practis oedd yn gyfrifol am dderbyn rhybuddion diogelwch cleifion ac roedd system ar waith ar gyfer gwneud yn siŵr y byddai uwch-aelod arall o'r staff yn derbyn y rhybuddion hyn pe byddai'n absennol. Ar ôl eu derbyn, byddai rhybuddion diogelwch cleifion yn cael eu dosbarthu'n electronig i'r tîm clinigol. Dywedwyd wrthym y byddai trafodaethau yn cael eu cynnal bob wythnos fel rhan o gyfarfodydd rheolaidd. Byddai'r meddygon teulu sy'n bartneriaid yn edrych ar unrhyw rybuddion pellach a fyddai'n dod i law. Fodd bynnag, er gwaethaf rhaglen

sefydlu gynhwysfawr, ymddengys nad oedd rhybuddion diogelwch cleifion wedi'u cynnwys fel rhan o'r pecynnau sefydlu i staff locwm. **Felly rydym yn argymhell y dylid rhoi system addas ar waith er mwyn sicrhau bod staff dros dro neu staff locwm yn meddu ar wybodaeth lawn am rybuddion diogelwch cleifion.**

Roedd digwyddiadau diogelwch cleifion o bwys yn cael eu cofnodi'n briodol ar system Datix y GIG, yn cael eu hadolygu a'u trafod, ac roedd taenlen ar gael i ni ei gweld ar ddiwrnod ein hymweliad a oedd yn dangos trefniadau cadw cofnodion da yn hyn o beth. **Fodd bynnag, rydym yn argymhell y dylid cadw cofnodlyfr yn cynnwys cofnodion cyfarfodydd a gynhaliwyd i drafod digwyddiadau diogelwch cleifion o bwys.**

Cadarnhaodd y staff y byddai ceisiadau atgyfeirio yn cael eu cyflwyno gan y clinigydd a oedd yn gwneud yr atgyfeiriad. Byddent wedyn yn cael eu rheoli drwy Borth Cyfathrebu Clinigol Cymru (WCCG). Byddai'r practis yn gofyn i staff locwm nad oeddent yn gallu cael mynediad i WCCG wneud cais am atgyfeiriad fel rhan o gofnodion meddygol y cleifion. Wedyn, byddai aelod o dîm gweinyddol y practis yn ymdrin â'r cais hwn. Roedd cleifion yr amheuwyd bod ganddynt ganser yn cael eu hatgyfeirio fel achos brys gan y practis mewn modd prydlon ac amserol. Trafodwyd y cyfraddau atgyfeirio â'r grŵp clwstwr.

Llywodraethu Gwybodaeth a Thechnoleg Ddigidol

Gwnaethom siarad ag uwch-aelodau o'r staff a gadarnhaodd y trefniadau ar gyfer diogelu data yn y practis. Dywedwyd wrthym fod gan y practis swyddog diogelu data a oedd wedi cael hyfforddiant priodol. Roedd y gwasanaeth hwn yn cael ei ddarparu gan Iechyd Digidol Cymru.

Roedd gan y practis broses glir ar waith ar gyfer ymdrin â data personol a sensitif. Roedd polisi preifatrwydd y practis ar gael i'r cleifion ei weld yn y practis ac ar wefan y practis.

Cofnodion y Cleifion

Gwnaethom edrych ar sampl o 10 o gofnodion meddygol electronig y cleifion. Gwelsom fod y cofnodion meddygol yn cael eu diogelu rhag mynediad heb awdurdod.

Os oedd gan y claf ddewis neu ofyniad penodol o ran iaith, byddai hynny wedi'i nodi yn y cofnodion meddygol.

Yn ôl ein hasesiad o'r cofnodion meddygol, roedd y trefniadau ar gyfer cadw cofnodion yn dda ar y cyfan ac roedd y cofnodion yn glir ac yn hawdd eu deall. Fodd bynnag, nodwyd gennym nad oedd pob diagnosis yn cael y cod Read priodol ac nad oedd archwiliadau clinigol a oedd yn cael eu cynnal bob amser yn cael eu

cofnodi. At hynny, roedd rhai ffactorau risg y dylid bod wedi rhoi cod Read iddynt yn cael eu cofnodi o dan adran o'r enw 'ffordd o fyw' yn lle hynny, ac roedd eraill yn cael eu nodi fel rhan o flwch testun rhydd a gwblhawyd fel rhan o'r ymgynghoriad.

Nodwyd gennym fod y system cofnodion meddygol a ddefnyddiwyd gan y practis yn cynnwys adnodd archwilio. Fodd bynnag, ni welsom archwiliad o'r cofnodion meddygol ar ddiwrnod ein hymweliad. **Rydym yn argymhell y dylai'r practis gynnal archwiliad o gofnodion meddygol y cleifion er mwyn sicrhau bod y codau Read priodol yn cael eu defnyddio ac i dynnu sylw at unrhyw feysydd y gallai fod angen eu gwella.**

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Llywodraethu ac Arweinyddiaeth

Ar adeg ein harolygiad, roedd tri meddyg teulu sy'n bartneriaid yn y practis yn berchen ar Feddygfa Lansdowne ac yn ei gweithredu. Roedd y practis yn rhan o grŵp clwstwr meddygon teulu De-orllewin Caerdydd. Dywedodd y staff fod hynny'n fuddiol ac yn werthfawr.

Roedd y practis yn cyflogi nifer o staff clinigol ac anghlinigol, gan gynnwys un meddyg teulu wrth gefn, pedwar meddyg teulu cyflogedig, yn ogystal ag un nyrs practis ran amser ac un cynorthwydd gofal iechyd. Roedd y practis yn cael cymorth da gan dîm o staff gweinyddol.

Roedd rheolwr practis ymroddedig a brwdfrydig a oedd yn cael cymorth gan ddirprwy reolwr practis. Ynghyd â'r meddygon teulu sy'n bartneriaid, roedd yn ymddangos bod llwybr clir ar waith i sicrhau bod y practis yn parhau'n gynaliadwy. Dywedwyd wrthym fod trafodaethau cadarnhaol i drafod cynnig i uno â meddygfa gyfagos yn mynd rhagddynt yn dda, ac y byddai penderfyniad terfynol yn cael ei wneud maes o law.

Roedd rhannu gwybodaeth yn flaenoriaeth, ac roedd amrywiaeth o ffyrdd o wneud hynny. Byddai staff yn cael negeseuon e-bost lle y bo'n briodol. Roedd y practis hefyd yn defnyddio system meddalwedd gyfrifiadurol a oedd yn cadw'r holl ddogfennaeth ac yn helpu i gofnodi gwyliau a rotas y staff. Byddai polisïau newydd ar gael i'r staff eu gweld ac wedi'u huwcholeuo hyd nes y byddai'r staff wedi eu darllen.

Dywedwyd wrthym y byddai cyfarfodydd tîm rheolaidd yn cael eu cynnal er mwyn annog pob aelod o'r staff i gyfathrebu â'i gilydd. Byddent yn cael eu cynnal bob wythnos a byddai cofnodion yn cael eu cymryd. At hynny, roedd staff y practis yn defnyddio system negeseua a oedd yn rhan o feddalwedd y practis i gyfathrebu â'i gilydd drwy gydol y diwrnod gwaith.

Roedd un o'r meddygon teulu sy'n bartner, a oedd hefyd yn gyfrifol am reoli cydymffurfiaeth â'r Fframwaith Sicrhau Ansawdd a Gwella (QAIF) ar y cyd â rheolwr y practis, yn gyfrifol am ddarparu goruchwyliaeth glinigol.

Gweithlu Medrus a Galluog

Gwnaethom siarad ag aelodau o staff o amrywiaeth o broffesiynau a oedd yn gweithio yn y practis. Dangosodd ein trafodaethau fod y staff yn wybodus am eu rolau a'u cyfrifoldebau a'u bod yn ymrwymedig i ddarparu gwasanaeth o ansawdd i gleifion.

Dywedodd uwch-aelodau o'r staff eu bod wedi ei chael hi'n anodd recriwtio unigolion i swyddi nyrsio gwag yn y practis. Ar adeg yr arolygiad, roedd un nyrs bractis ran amser yn gweithio yn y practis ac roedd dyddiad wedi'i drefnu i ail nyrs ddechrau yn fuan wedi hynny.

Gwnaethom edrych ar ffeiliau personol y staff. Roedd rheolwr y practis yn eu cadw'n ddiogel. Roedd disgrifiad swydd dilys ar gael ar gyfer pob aelod o'r staff a oedd yn disgrifio eu rôl yn gywir, a gwelsom dystiolaeth fod arfarniadau blynyddol a gwiriadau'r DBS yn cael eu cynnal lle bo angen. Roedd y meddygon teulu sy'n bartneriaid yn cynnal arfarniadau ac adolygiadau cymheiriaid clinigol ar gyfer y staff clinigol.

Roedd y staff clinigol yn cael y cyfle i drafod anghenion hyfforddiant ac awgrymiadau o ran sut y gellid cael gafael ar gymorth a chyfleoedd dysgu yn ystod arfarniadau blynyddol. Yn ogystal â hyn, roedd cyfarfodydd clinigol yn cael eu cynnal bob wythnos i annog y tîm clinigol i rannu unrhyw wersi a ddysgwyd. Roedd y manylion hyn hefyd yn cael eu nodi yn y cofnodlyfr cyfarfodydd clinigol. Cawsom wybod fod y staff clinigol yn cael amser dysgu gwarchoddedig gan y bwrdd iechyd lleol pe byddai ei angen arnynt.

Roedd y staff yn gweithio'n unol â'u cymhwysedd clinigol ac o fewn eu maes ymarfer o ystyried eu cymwysterau, eu sgiliau, eu gwybodaeth a'u profiad cyfredol. Roedd gan y staff clinigol a oedd yn cynnig triniaethau preifat yn unig drefniadau indemniad priodol ar waith. Fodd bynnag, ar ddiwrnod ein hymweliad, nid oedd yn ymddangos bod cynllun gweithlu digonol ar waith i sicrhau capasiti a chymysgedd sgiliau priodol ymhlith y staff. Yn hytrach, nodwyd bod hynny'n cael ei ystyried yn ôl y galw ac yn dilyn trafodaeth â'r meddygon teulu sy'n bartneriaid. Nododd uwch-aelodau o'r staff fod hyn yn debygol o gael ei gynnal yn unol â'r trefniadau uno arfaethedig a oedd ar waith. **Byddem yn annog y practis i roi cynllun gweithlu addas ar waith er mwyn sicrhau cymysgedd sgiliau digonol ymhlith y staff hyd nes y caiff y cynnig arfaethedig i uno ei weithredu.**

Nodwyd gennym wrth edrych ar gofnodion imiwneiddio a brechu'r staff fod angen eu hadnewyddu a'u diweddarau. Nid oedd cofnodion y practis mewn perthynas â statws imiwneiddio'r staff rhag Hepatitis B yn gyfredol. **Dylai'r practis sicrhau y caiff cofnodion y staff eu hadolygu'n rheolaidd er mwyn gwneud yn siŵr y caiff camau priodol eu cymryd i atal haint a ddelir wrth gael gofal iechyd o'r math hwn.**

Nododd adolygiad o hyfforddiant gorfodol y staff nad oedd pawb wedi cyflawni'r hyfforddiant gofynnol, a bod angen diweddarau hyfforddiant sawl aelod o'r staff mewn meysydd fel Cynnal Bywyd Sylfaenol ac argyfyngau meddygol (gan gynnwys anaffylacsis) a hyfforddiant atal a rheoli heintiau. At hynny, nid oedd hyfforddiant

Cydraddoldeb ac Amrywiaeth y staff yn gyfredol ac nid oedd sawl aelod o staff clinigol ac anghlinigol y practis wedi ymgymryd â hyfforddiant diweddar ar ddiogelu plant ac oedolion agored i niwed. Ni welsom unrhyw dystiolaeth fod hyfforddiant diogelwch tân wedi cael ei gynnal. **Oherwydd natur ddifrifol ein canfyddiadau, ymdriniwyd â'r mater hwn o dan broses sicrwydd ar unwaith AGIC, lle rydym yn ysgrifennu at y practis yn gofyn iddo wneud gwelliannau ar unwaith. Ers hynny, rydym wedi cael dystiolaeth a sicrwydd boddhaol bod gwelliannau wedi'u gwneud yn y maes hwn.**

Roedd pecyn hyfforddiant sefydlu cynhwysfawr ar waith i staff a oedd yn newydd i'w rôl. Roedd hyn yn cynnwys proses adolygu er mwyn gwneud yn siŵr bod y staff yn ymwybodol o'u rôl a'u cyfrifoldebau.

Ar hyn o bryd, nid oedd y practis yn cynnig hyfforddiant yn Gymraeg. Fodd bynnag, dywedodd uwch-aelodau o'r staff wrthym fod y gallu i siarad Cymraeg yn cael ei ystyried fel rhan o'r prosesau recriwtio os oedd staff ar lefel debyg fel arall, er nad oedd yn rhan o'r broses gyffredinol ar gyfer gwneud cais.

O'n sgysiau â'r staff drwy gydol yr arolygiad, roeddem yn teimlo'n hyderus pe byddai angen iddynt godi pryder, y byddent yn cael cymorth i wneud hynny. Cawsom gopi o bolisi Chwythu'r Chwiban y practis a gwelsom ei fod ar gael i bob aelod o'r staff er mwyn rhoi arweiniad iddynt.

4. Y camau nesaf

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae'n ofynnol i'r gwasanaeth gymryd camau yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol yn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon am ddiogelwch cleifion a gafodd eu huwchgyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith yn dweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi'n glir sut yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol
- Sicrhau bod y dystiolaeth ofynnol yn erbyn y camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r arolygiad.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar [wefan](#) AGIC.

Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a gafodd eu nodi a'u huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion	Sut gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder	Sut cafodd y pryder ei ddatrys
<p>Gwelwyd llawer o eitemau wedi'u diheintio yr oedd y dyddiad defnyddio ar eu cyfer wedi mynd heibio yn yr ystafelloedd clinigol</p>	<p>Gallai clinigwyr ddefnyddio cyfarpar y mae'r dyddiad defnyddio ar eu cyfer wedi mynd heibio yn anfwriadol. Ni ellir cadarnhau nad yw cyfarpar wedi'i heintio pan fydd y dyddiad defnyddio wedi mynd heibio, felly gallai defnyddio cyfarpar â'r dyddiad wedi mynd heibio beri risg o niwed i gleifion.</p>	<p>Trafodwch ag uwch-aelodau o'r staff. Rhoi'r broses sicrwydd ar unwaith ar waith oherwydd nifer yr eitemau a welwyd.</p>	<p>Cafodd rhai o'r eitemau eu gwaredu yn ystod yr arolygiad. Cwblhawyd y gwaith gwaredu ar ôl rhoi'r broses sicrwydd ar unwaith ar waith.</p>

--	--	--	--

Atodiad B - Cynllun gwella ar unwaith

Gwasanaeth: Meddygfa Lansdowne, Heol y Feddygfa, Caerdydd CF11 8DG

Dyddiad yr arolygiad: 27 Mawrth 2023

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith yn dweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd.

Yr hyn sydd angen ei wella	Rheoliad/ Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Darparu gofal diogel ac effeithiol				
<p><u>Canfyddiad</u></p> <p>Ni chafodd AGIC sicrwydd fod gan y practis weithdrefnau digon cadarn ar waith i sicrhau prosesau diogel ac effeithiol ar gyfer rheoli meddyginiaethau.</p> <p>Yn ystod yr arolygiad, nododd AGIC feysydd pryder mewn perthynas â phrosesau aneffeithiol ac amhriodol ar gyfer rheoli meddyginiaethau yn y practis. Roedd y rhain yn cynnwys:</p>				

Yr hyn sydd angen ei wella	Rheoliad/ Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
<ul style="list-style-type: none"> • Storio meddyginiaethau mewn cypyrddau a droriau nad oeddent wedi'u cloi. Roedd y rhain yn cynnwys meddyginiaethau a oedd yn cynnwys meddyginiaethau pigiadau atal cenhedlu, a oedd wedi'u rhagnodi i gleifion penodol yn ogystal â sawl bocs o bigiadau fitamin B12 (Hydroxocobalamin 1mg/ml). • Oergell feddyginiaeth heb ei chloi mewn ystafell heb ei chloi. • Brechlyn ffliw i blant yr oedd y dyddiad arno wedi mynd heibio yn yr oergell feddyginiaeth • Taflenni presgripsiwn gwag wedi'u storio mewn drôr heb ei gloi • Meddyginiaethau wedi'u storio mewn cypyrddau y gellid eu cloi â'r allweddi wedi'u gadael yn y clo <p>Yn ogystal, wrth edrych ar yr ystafelloedd clinigol, gwelsom nad oedd y protocolau brechlynnau a oedd i'w gweld ar gyfer imiweiddio plant yn gyfredol. Dylid bod wedi'u hadolygu ers rhyw dair blynedd. Nid oedd dyddiad wedi'i nodi ar rai eraill ac nid oedd yn amlwg a oedd y cyngor a oedd wedi'i nodi yn unol â'r canllawiau diweddaraf. Gallai hyn achosi dryswch i staff locwm neu aelodau newydd o staff gan na fyddant o bosibl yn cydymffurfio â'r canllawiau diweddarach mwyach.</p>				
<p><u>Yr hyn sydd angen ei wella</u></p> <p>Mae'n ofynnol i'r practis wneud y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Sicrhau y caiff yr holl feddyginiaethau y mae'r dyddiad defnyddio ar eu cyfer wedi mynd heibio eu gwaredu ar unwaith ac mewn ffordd briodol • Gweithredu a chynnal gweithdrefn gadarn ar gyfer rheoli meddyginiaethau 	<p>2.6 Rheoli Meddyginiaethau</p>	<p>Cafodd yr holl feddyginiaethau yr oedd y dyddiad defnyddio ar eu cyfer wedi mynd heibio eu gwaredu'n briodol.</p> <p>Caiff yr holl feddyginiaethau eu storio mewn cwpwrdd y gellir ei gloi a gaiff ei gloi pan na fydd yr ystafell yn cael ei defnyddio.</p>	<p>Robert Parton</p>	<p>Ar unwaith</p>

Yr hyn sydd angen ei wella	Rheoliad/ Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
<p>er mwyn sicrhau y caiff yr holl feddyginiaethau a gedwir yn y practis eu cadw mewn ffordd ddiogel ac effeithiol sy'n atal unigolion heb awdurdod rhag cael gafael arnynt a'u symud</p> <ul style="list-style-type: none"> Sicrhau na chaiff oergelloedd a chypyrddau meddyginiaeth eu gadael heb eu cloi fel mater o drefn ac y caiff yr allweddi eu tynnu ohonynt a'u cadw'n ddiogel pan na fydd angen cael mynediad iddynt Sicrhau mai dim ond y canllawiau imiwneiddio diweddaraf a gaiff eu harddangos yn yr ystafelloedd clinigol. 		<p>Rydym wedi rhoi arwydd ar bob un o'r cypyrddau hyn i atgoffa'r staff y dylid eu cloi ar ôl eu defnyddio. Rhoddwyd protocol storio meddyginiaethau a nwyon meddygol ei roi ar waith</p> <p>Caiff yr allweddi eu tynnu o'r oergelloedd a'r cypyrddau pan na fyddant yn cael eu defnyddio. Caiff yr allweddi eu cadw mewn man diogel y cytunwyd arno.</p> <p>Bydd nyrs newydd y practis yn arddangos y canllawiau diweddaraf ac yn edrych ar bob poster er mwyn sicrhau mai dyna'r fersiynau diweddaraf. Diweddarwyd polisi canllawiau imiwneiddio a phoster imiwneiddio'r practis.</p>	Kat Davies	1 wythnos
<u>Canfyddiad</u>				

Yr hyn sydd angen ei wella	Rheoliad/ Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
<p>Ni chafodd AGIC sicrwydd fod system digon cadarn ar waith yn y practis i wneud yn siŵr bod eitemau yr oedd y dyddiad defnyddio ar eu cyfer wedi mynd heibio, gan gynnwys eitemau wedi'u diheintio, yn cael eu gwaredu'n ddi-oed ac mewn modd amserol er mwyn sicrhau na chânt eu defnyddio.</p> <p>Yn ystod yr arolygiad, nododd AGIC fod llawer o eitemau yr oedd y dyddiad defnyddio ar eu cyfer wedi mynd heibio i'w gweld yn yr ystafelloedd ymgynghori clinigol ac nad oeddent wedi cael eu tynnu allan o ddefnydd, gan gynnwys rhai yr oedd y dyddiad wedi mynd heibio ers 2006. Roedd yr eitemau dan sylw yn cynnwys y canlynol (ymhlith eraill):</p> <ul style="list-style-type: none"> • Pwythau wedi'u diheintio • Tyllwyr biopsi a photiau histoleg • Menig wedi'u diheintio • Pecynnau casglu samplau wrin • Tiwbiau ocsigen • Jeli iro • Swabiau • Stribedi profi wrin • Pecynnau mân driniaethau llawfeddygol • Nodwyddau 				

Yr hyn sydd angen ei wella	Rheoliad/ Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
<p>Gall methu â chael gwared ar eitemau wedi'u diheintio y mae'r dyddiad defnyddio ar eu cyfer wedi mynd heibio olygu y cânt eu defnyddio'n anfwriadol gan glinigydd gan achosi niwed i glaf.</p> <p>At hynny, gwelsom dystiolaeth nad oedd oergell fach a oedd yn cael ei defnyddio i storio samplau wedi'u darparu gan gleifion i'w dadansoddi yn gweithio'n effeithlon a'i bod mewn cyflwr gwael. Gwelsom fod iâ wedi cronni yn yr oergell hon a bod angen ei dadrewi er mwyn iddi weithio'n effeithlon. Yn ogystal, roedd tywel papur gwlyb yn cael ei ddefnyddio i amsugno gollyngiad yn yr oergell. Roedd staeniau ar yr oergell hefyd. Yn olaf, nodwyd gennym fod pecynnau iâ yn cael eu storio yn yr oergell hon. Gallai methu â chynnal a chadw'r oergell arwain at achosion o ddihalogi neu ddirywio'r samplau sy'n cael eu storio ynddi. Gallai hyn effeithio ar y gofal a roddir i gleifion.</p> <p>Nododd ein hadolygiad o'r cyfarpar diagnostig yn y feddygfa fod angen ailgalibradu rhai eitemau ac mai yn 2016 y cynhaliwyd y gwiriadau calibradu blaenorol.</p> <p>Gwelsom hefyd nad oedd y sticeri a oedd yn nodi na ddylid datgysylltu cyflenwad trydanol yr oergelloedd yn glir a'u bod, mewn gwirionedd, wedi'u cuddio gan blygiau trydanol y cyfarpar.</p>				
<p><u>Yr hyn sydd angen ei wella</u></p> <p>Mae'n ofynnol i'r practis wneud y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> Sicrhau y caiff yr holl eitemau y mae'r dyddiad defnyddio ar eu cyfer wedi mynd heibio eu symud o'r ystafelloedd clinigol ac y cânt eu gwaredu'n briodol 	<p>2.9 Dyfeisiau, Cyfarpar a Systemau Diagnostig Meddygol</p>	<p>Cafodd dyddiadau defnyddio pob eitem eu gwirio a chafodd unrhyw eitemau yr oedd y dyddiad defnyddio ar eu cyfer wedi mynd heibio eu dinistrio'n briodol.</p>	<p>Robert Parton Amanda Berry</p>	<p>Ar unwaith</p>

Yr hyn sydd angen ei wella	Rheoliad/ Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
<ul style="list-style-type: none"> • Datblygu, gweithredu a chynnal system gadarn ar gyfer rheoli deunyddiau wedi'u diheintio • Datblygu, gweithredu a chynnal system gadarn ar gyfer rheoli gwiriadau ailgalibradu ar ddyfeisiau a chyfarpar meddygol • Sicrhau y caiff pob oergell glinigol ei chynnal a'i chadw a'i glanhau'n briodol a'i bod yn bodloni'r amrediad tymheredd angenrheidiol. Dylid rhoi'r gorau i ddefnyddio unrhyw oergelloedd nad ydynt yn gweithio'n effeithiol. • Sicrhau bod eitemau y mae angen cyflenwad trydanol parhaus arnynt wedi'u marcio'n briodol i ddangos hynny er mwyn atal unrhyw doriad anfwriadol i'r cyflenwad trydanol 		<p>Caiff deunyddiau wedi'u diheintio eu gwirio fel rhan o'r archwiliad misol.</p> <p>Daeth gwasanaethau ailgalibradu i'r practis yn ddiweddar. Byddwn yn adolygu'r holl eitemau er mwyn gwneud yn siŵr na chafodd unrhyw eitem ei methu. Ni chafodd y peiriant sbirometreg ei ailgalibradu gan nad oedd yn cael ei ddefnyddio ac nad oedd unrhyw awgrym y byddai'n cael ei ddefnyddio eto.</p> <p>Mae pob oergell glinigol yn cael ei chynnal a'i chadw'n briodol. Mae cofnodwyr data wedi'u gosod ar bob un sy'n ein hysbysu os bydd y tymheredd y tu allan i'r amrediad derbyniol. Nid oergell glinigol yw'r oergell fach a chaiff ei defnyddio i storio samplau wrin a gaiff eu cyflwyno'n hwyr dros nos i'w</p>	<p>Paula Hooper</p> <p>Robert Parton</p> <p>Kat Davies</p> <p>Robert Parton</p>	<p>O fewn 1 mis</p> <p>O fewn pythefnos</p> <p>O fewn pythefnos</p>

Yr hyn sydd angen ei wella	Rheoliad/ Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		cynnwys fel rhan o'r casgliad trannoeth. Caiff yr oergell fach ei glanhau a'i dadrewi.		
<p><u>Canfyddiad</u></p> <p>Ni chafodd AGIC sicrwydd fod gweithdrefnau digon cadarn ar waith yn y practis meddygol i wneud yn siŵr bod prosesau atal a rheoli heintiau bob amser yn cael eu rhoi ar waith.</p> <p>Wrth arsylwi ar y practis, nodwyd gennym nad oedd y llenni clinigol a oedd yn cael eu defnyddio i ddarparu preifatrwydd yn yr ystafelloedd clinigol wedi cael eu newid ers rhai blynyddoedd. Dylid bod wedi newid rhai ohonynt yn 2019. Nid oedd ystafelloedd clinigol eraill yn cynnwys llenni tafladwy. Yn hytrach, roedd y llenni wedi'u gwneud o ddefnydd cotwm o hyd.</p> <p>Yn un ystafell glinigol, nodwyd gennym fod sinc wedi gollwng ac wedi halogi pecynnau mân driniaethau llawfeddygol wedi'u diheintio a oedd wedi'u storio oddi tani mewn cwpwrdd.</p> <p>Nid oedd y posterï a'r wybodaeth a oedd wedi'u harddangos ar yr hysbysfyrddau wedi'u lamineiddio'n addas er mwyn gallu eu glanhau'n unol â'r canllawiau atal a rheoli heintiau diweddaraf ac roedd gwely archwilio yn un o'r ystafelloedd clinigol wedi rhwygo mewn sawl man.</p> <p>Roedd y cyffuriau a'r cyfarpar brys yn cael eu storio mewn ystafell a oedd yn cael ei defnyddio hefyd gan y practis meddygol fel golchfa. Roedd biniau offer miniog clinigol llawn yn cael eu storio wrth ymyl y cyffuriau brys a allai beri risg o halogi.</p> <p>At hynny, ni chawsom dystiolaeth bod archwiliadau atal a rheoli heintiau nac archwiliadau hylendid dwylo yn cael eu cynnal yn y practis meddygol na thystiolaeth bod yr arweinydd atal a rheoli heintiau yn y practis meddygol wedi cael hyfforddiant priodol.</p>				

Yr hyn sydd angen ei wella	Rheoliad/ Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
<ul style="list-style-type: none"> Sicrhau na chaiff cyfarpar wedi'i ddiheintio a chyfarpar clinigol ei storio o dan sinc Cael gwared ar yr holl bosteri a hysbysiadau papur a gosod fersiynau wedi'u lamineiddio yn eu lle, lle y bo'n bosibl Trwsio'r gwely archwilio yn ystafell y ffisiotherapyddion Sicrhau na chaiff y cyffuriau a'r cyfarpar brys eu storio mewn ffordd sy'n golygu y gellid eu halogi. 		<p>hyd. Caiff amserlen ei llunio a fydd yn ein hysbysu pan fydd hi'n bryd gosod llenni newydd.</p> <p>Cafodd y sinc ei thrwsio. Cafodd yr holl gynnwys oddi tani ei symud. Rhoddwyd arwydd ar y drws i rybuddio'r staff i beidio â storio unrhyw ddeunyddiau o dan y sinc.</p> <p>Mae nyrs newydd y practis wedi tynnu unrhyw bosteri neu arwyddion papur y gellir eu tynnu a byddwn yn ceisio dod o hyd i fersiynau wedi'u lamineiddio lle y bo'n bosibl.</p> <p>Rydym yn ymchwilio i gost trwsio'r gwely archwilio sydd wedi rhwygo neu brynu un newydd.</p> <p>Cafodd y biniau gwastraff clinigol wedi'u defnyddio eu symud o ardal y troli brys.</p>	<p>Kat Davies</p> <p>Robert Parton</p>	<p>Ar unwaith</p> <p>1 mis</p>

Yr hyn sydd angen ei wella	Rheoliad/ Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
<p><u>Canfyddiad</u></p> <p>Ni chafodd AGIC sicrwydd fod pob aelod o staff clinigol yn y practis yn cael hyfforddiant addas ar gynnal bywyd sylfaenol. At hynny, ni chawsom gopi o bolisi na gweithdrefn ddadebru'r practis. Roedd y cyffuriau a'r cyfarpar brys yn cael eu gwirio bob wythnos, yn hytrach na bob dydd fel sy'n ofynnol gan Gyngor Dadebru'r DU.</p> <p>Nid oedd gweithdrefn ar waith i drin cleifion ag alergedd i benisilin yn briodol, pe byddai cleifion â llid yr ymennydd yn dod i'r practis a bod angen triniaeth frys arnynt.</p> <p>Cawsom wybod gan uwch-aelodau o'r staff mai dim ond un warden tân hyfforddedig oedd gan y practis ac nad oedd swyddog cymorth cyntaf dynodedig. Gallai hyn beri risg i'r cleifion, y staff ac ymwelwyr pe byddai tân, pe byddai'r aelod hwn o staff yn absennol.</p>				
<p><u>Yr hyn sydd angen ei wella</u></p> <p>Mae'n ofynnol i'r practis wneud y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> Sicrhau bod pob aelod o'r staff wedi cael hyfforddiant priodol ar gynnal bywyd sylfaenol ac argyfyngau meddygol ar lefel sy'n briodol ar gyfer eu rôl. Rhoi gweithdrefn ddadebru ar waith sy'n benodol i'r practis. 	<p>2.1 Rheoli Risg a Hybu lechyd a Diogelwch</p>	<p>Anfonwyd y ddolen e-ddysgu at bob aelod o'r staff i'w gwblhau.</p> <p>Mae polisi argyfyngau meddygol ar waith gan y practis ac mae dadebru yn rhan o'r polisi hwnnw.</p> <p>Caiff polisi argyfyngau meddygol y practis ei ddiweddarau i gynnwys triniaethau amgen ar</p>	<p>Amanda Berry</p> <p>Amanda Berry</p>	<p>O fewn 2 fis</p>

Yr hyn sydd angen ei wella	Rheoliad/ Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
<ul style="list-style-type: none"> Rhoi gweithdrefn ar waith i drin cleifion â symptomau llid yr ymennydd sydd ag alergedd i benisilin. Sicrhau bod pob aelod o'r staff yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau mewn perthynas â'r gweithdrefnau hyn. Penodi ail warden tân hyfforddedig a phenodi swyddog cymorth cyntaf dynodedig. 		<p>gyfer cleifion ag alergedd i benisilin. Rydym hefyd wedi rhoi polisi ar waith ar gyfer alergeddau, anoddefiadau a sensitifrwyddau sy'n cynnwys y wybodaeth hon.</p> <p>Penodwyd aelod o'r staff fel yr ail warden tân. Byddwn yn ystyried y gofynion hyfforddiant a pha gyrsiau sydd ar gael.</p> <p>Penodwyd aelod o'r staff fel swyddog cymorth cyntaf y practis. Byddwn yn ystyried y gofynion hyfforddiant a pha gyrsiau sydd ar gael.</p>	<p>Dr C Bryant a Dr K Pardy</p>	<p>1 mis</p> <p>1 mis gan ddibynnu pa gyrsiau sydd ar gael.</p>

Yr hyn sydd angen ei wella	Rheoliad/ Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth				
<p><u>Canfyddiad</u></p> <p>Ni chafodd AGIC sicrwydd fod y systemau a'r gweithdrefnau rheoli sydd ar waith yn ddigon cadarn i sicrhau bod y practis yn cael ei lywodraethu mewn modd digonol. Yn ystod ein harolygiad, canfu AGIC dystiolaeth o'r materion canlynol y mae angen eu gwella ar unwaith er mwyn sicrhau bod y practis yn gweithredu'n ddiogel ac yn effeithiol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Diffyg hyfforddiant gorfodol a goruchwyliaeth ohono gan uwch-aelodau o'r staff • Methiant i archwilio'r practis a'i arferion clinigol yn effeithiol. 				
<p><u>Yr hyn sydd angen ei wella</u></p> <p>Mae'n ofynnol i'r practis wneud y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Datblygu, cyflwyno a chynnal amserlen hyfforddiant gorfodol er mwyn sicrhau bod y staff yn bodloni'r gofynion diweddaraf • Datblygu a chyflwyno amserlen o archwiliadau llawn 	<p>7.1 Y Gweithlu</p>	<p>Rhodddwyd hyfforddiant gorfodol ar waith fel rhan o'r rhaglen sefydlu i'r staff newydd.</p> <p>Bydd y staff presennol yn cwblhau pob modiwl hyfforddiant gorfodol fel sy'n ofynnol.</p> <p>Mae amserlen archwilio ar waith ar fewnrwyd y practis sy'n cynnwys system dyddiadau</p>	<p>Amanda Berry</p>	<p>Ar unwaith</p> <p>O fewn 2 fis gan ddibynnu ar lefelau staffio.</p> <p>1 mis</p>

Yr hyn sydd angen ei wella	Rheoliad/ Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		adnewyddu. Rydym hefyd wedi rhoi polisi datblygu staff ar waith sy'n cynnwys amserlenni ar gyfer hyfforddiant gorfodol		

Cynrychiolydd y Gwasanaeth:

**Enw
(priflythrennau):**

Amanda Berry

Rôl:

Rheolwr y Practis

Dyddiad:

04.04.2023

Atodiad C - Cynllun gwella

Gwasanaeth: Meddygfa Lansdowne, Heol y Feddygfa, Caerdydd CF11 8DG

Dyddiad yr arolygiad: 27 Mawrth 2023

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
<p>Rhaid i'r practis sicrhau y caiff anghenion unigol y cleifion eu diwallu wrth gael mynediad i'r practis. Mae hyn yn cynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none">• sicrhau bod modd i gleifion sy'n awyddus i gyfathrebu drwy gyfrwng y Gymraeg wneud hynny, yn unol â'r 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg• sicrhau bod gwybodaeth ysgrifenedig ar gael mewn amrywiaeth o fformatau	3.1 Gofal Diogel a Chlinigol Effeithiol	<ul style="list-style-type: none">• Fel rhan o'r broses cofrestru cleifion rydym yn gofyn am ddewis iaith. Caiff hyn ei nodi yng nghofnod y claf. Nid yw'r practis yn cyflogi unrhyw siaradwyr Cymraeg ar hyn o bryd. Mae gennym fynediad at y Llinell Iaith a gynigir i'r cleifion os ydynt angen sgwrsio yn Gymraeg. Darperir gwybodaeth yn Gymraeg ac yn Saesneg lle bo modd. Mae'r practis yn awyddus i ddod o hyd i wasanaethau i gynorthwyo gyda chyfieithu	Amanda Berry a Robert Parton	<p>Mae'r wybodaeth sy'n cael ei harddangos o amgylch y practis yn cael ei hadolygu ar hyn o bryd. Bydd hon yn broses barhaus i ddarparu gwybodaeth yn ddwyieithog.</p> <p>Adolygiad cychwynnol o ffurflenni/gwybodaeth 1 mis ac yna'n barhaus.</p>

<p>(e.e. hawdd eu deall neu brint bras)</p> <ul style="list-style-type: none"> hygyrchedd yr adeilad i gleifion â gofynion mynediad sy'n gysylltiedig symudedd. 		<p>hysbysiadau cyffredinol i'r cleifion.</p> <ul style="list-style-type: none"> Bydd y practis yn darparu ffurflenni a thafleuni lle bo modd mewn amrywiaeth o fformatau <p>Bydd y practis yn ymchwilio i gost drysau awtomatig a fforddiadwyedd hyn. Ar hyn o bryd mae'r practis yn darparu system cloch alw i rybuddio'r staff a fydd yn cynorthwyo. Bydd arwydd yn cael ei osod i gyfarwyddo'r cleifion â gofynion mynediad symudedd i ddefnyddio'r system intercom i gael cymorth.</p>		<p>Bydd yr arwydd yn cael ei osod ar unwaith.</p>
<p>Rhaid i'r practis sicrhau'r canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> hygyrchedd y weithdrefn Gweithio i Wella sydd wedi'i harddangos yn y practis Caiff polisi a gweithdrefn gwyno'r practis eu 	<p>6.3 Gwrando a Dysgu o Adborth</p>	<ul style="list-style-type: none"> Bydd poster Gweithio i Wella yn cael ei symud i leoliad gwahanol o fewn y man aros er mwyn iddo fod yn fwy gweladwy i'r cleifion. Mae Polisi cwynion y practis wedi'i adolygu. Caiff poster y weithdrefn gwyno ei symud i 	<p>Amanda Berry a Robert Parton</p>	<p>Ar unwaith</p> <p>Ar unwaith</p>

<p>hadolygu er mwyn sicrhau bod y rolau a'r cyfrifoldebau y cyfeirir atynt ynddynt yn gyfredol. Rhaid arddangos y weithdrefn gwyno mewn ardal sy'n hygyrch i'r cyhoedd ac mewn ffordd sy'n hygyrch i bawb mewn amrywiaeth o fformatau.</p> <ul style="list-style-type: none"> • y caiff gofalwyr eu cefnogi'n briodol. Rhaid i hyn gynnwys y gallu i gael asesiadau Hawliau'r Gofalwr. • Caiff adborth gan gleifion ei annog, a bod tystiolaeth o'r gwelliannau a wnaed o ganlyniad i'r adborth hwnnw ar gael (e.e. hysbysfwrdd 'Dywedoch Chi, Gwnaethom Ni') 		<p>leoliad gwahanol o fewn y man aros er mwyn iddo fod yn fwy gweladwy i'r cleifion. Bydd y daflen Cwynion yn cael ei symud i leoliad gwahanol o fewn y man aros er mwyn iddo fod yn fwy gweladwy i'r cleifion.</p> <ul style="list-style-type: none"> • Mae gan y practis Hyrwyddwr Gofalwyr sy'n cael ei arddangos yn y man aros. Bydd y practis yn hyrwyddo hyn. Fel rhan o'r broses gofrestru gofynnir i'r cleifion a ydynt yn ofalwr neu a oes ganddynt ofalwr. Caiff hyn ei nodi yng nghofnod y claf. <p>Mae'r practis yn darparu ffurflenni adborth yn y man aros ac ar wefan y practis. Bydd y practis yn cyflwyno hysbysfwrdd 'Dywedoch Chi, Gwnaethom Ni' yn y man aros a'i arddangos ar wefan y practis.</p>		<p>Parhaus</p> <p>3 mis</p>
<p>Rhaid i'r practis sicrhau'r canlynol:</p>	<p>2.9 Dyfeisiau, Cyfarpar a</p>	<ul style="list-style-type: none"> • mae offer diangen wedi'i symud o'r ardaloedd clinigol 	<p>Robert Parton</p>	<p>Wedi gweithredu eisoes</p>

<ul style="list-style-type: none"> • y caiff cyfarpar diangen ei symud o'r ardaloedd clinigol ac y caiff ei storio'n briodol pan na fydd yn cael ei ddefnyddio • y caiff cofnodlyfr ei ddatblygu a'i gadw i sicrhau y caiff dyfeisiau a chyfarpar meddygol eu cynnal a'u cadw'n unol â chanllawiau'r gwneuthurwr a chanllawiau clinigol, gan gynnwys gwiriadau ailgalibradu. 	Systemau Diagnostig Meddygol	<ul style="list-style-type: none"> • bydd y practis yn datblygu log i sicrhau bod dyfeisiau ac offer meddygol yn cael eu cynnal 	Robert Parton	2 fis
<p>Rhaid i'r practis sicrhau'r canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • y caiff biniau offer miniog eu storio'n briodol yn yr ardaloedd clinigol er mwyn atal achosion o'u troi drosodd a'r risg gysylltiedig o ran anafiadau o nodwyddau. • bod cyflenwad o Atropine ar gael yn y pecyn cyffuriau 	2.1 Rheoli Risg a Hybu lechyd a Diogelwch	<ul style="list-style-type: none"> • Symud biniau offer miniog i fan mwy priodol • Bydd y practis yn sicrhau bod cyflenwad o atropine ar gael os bydd y gwasanaeth mân lawdriniaeth yn ailddechrau 	Robert Parton Robert Parton	Ar unwaith Os bydd y gwasanaeth yn ailddechrau

<p>brys os bydd yn ailddechrau cynnig y gwasanaeth mân driniaethau llawfeddygol.</p> <ul style="list-style-type: none"> • Bod pob aelod o'r staff wedi cael hyfforddiant diogelwch tân a gaiff ei adnewyddu bob blwyddyn • Bod nifer addas o wardeniaid tân hyfforddedig yn y practis i ddarparu ar gyfer absenoldeb staff • Bod nifer addas o swyddogion cymorth cyntaf hyfforddedig ar bob adeg 		<ul style="list-style-type: none"> • Bydd y practis yn darparu amserlen er mwyn i holl staff y practis gyflawni'r hyfforddiant diogelwch tân gorfodol. • Bydd y practis yn chwilio am staff ychwanegol i ymgymryd â hyfforddiant warden tân • Bydd y practis yn chwilio am gwrs cymorth cyntaf ar gyfer staff y practis. 	<p>Robert Parton</p> <p>Robert Parton</p> <p>Robert Parton</p>	<p>3 mis</p> <p>3 mis</p> <p>3 mis</p>
<p>Rhaid i'r practis wneud y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • ystyried sut i addasu'r sinciau yn yr ardaloedd clinigol i dynnu'r systemau gorlif a'r plygiau. 	<p>2.4 Atal a Rheoli Heintiau a Dihalogi</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Adolygiad o'r sinciau a thynnu'r plygiau gorlif. 	<p>Robert Parton</p>	<p>3 mis</p>

<ul style="list-style-type: none"> sicrhau bod cyfarpar untro ar gael i'r clinigwyr lle bynnag y bo'n bosibl 		<ul style="list-style-type: none"> Bydd y practis yn adolygu'r offer sydd ar gael a bydd proses archwilio ar gyfer ailstocio yn cael ei chyflwyno. 	Robert Parton	Parhaus
<p>Rhaid i'r practis sicrhau bod y staff yn cwblhau hyfforddiant ar ddiogelu plant ac oedolion agored i niwed</p>	2.7 Diogelu Plant a Diogelu Oedolion sy'n Wynebu Risg	<ul style="list-style-type: none"> Mae hyn yn rhan o'r broses sefydlu ar gyfer y staff newydd i'w chwblhau o fewn 3 mis i ddechrau'r swydd. Bydd amser yn cael ei neilltuo i'r staff presennol i gwblhau'r hyfforddiant gorfodol. 	Amanda Berry	2 fis
<p>Rhaid i'r practis wneud y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> datblygu a gweithredu system addas er mwyn sicrhau bod staff dros dro neu staff locwm yn meddu ar wybodaeth lawn am rhybuddion diogelwch cleifion. datblygu a chadw cofnodlyfr yn cynnwys cofnodion cyfarfodydd a 	7.1 Y Gweithlu	<ul style="list-style-type: none"> Mae'r practis wedi adolygu'r broses ar gyfer rhybuddion diogelwch cleifion ac wedi diweddarau'r broses hon. Dosberthir y rhybuddion trwy e-bost i grwpiau'r staff priodol. Mae'r rhybuddion bellach yn cael eu hargraffu a'u cadw mewn ffolder yn ystafell gyfarfod y practis. Bydd hyn yn cael ei drosglwyddo i unrhyw aelod o'r staff dros dro neu locwm. 	Amanda Berry	Wedi gweithredu eisoes

<p>gynhaliwyd i drafod digwyddiadau diogelwch cleifion o bwys</p> <ul style="list-style-type: none"> • datblygu cynllun gweithlu addas er mwyn sicrhau cymysgedd sgiliau digonol ymhlith y staff hyd nes y caiff y cynnig arfaethedig i uno ei weithredu • datblygu a chadw cofnodlyfr o statws imiwneiddio'r staff a chymryd camau gweithredu amserol mewn perthynas â hynny 		<ul style="list-style-type: none"> • Mae'r practis eisoes wedi sefydlu proses ar gyfer cofnodi cofnodion cyfarfodydd wythnosol y practis, sy'n cynnwys rhybuddion diogelwch y cleifion ar yr agenda. Mae'r cofnodion hyn ar gael ar Teams i holl staff y practis. • Mae gan y practis gofnod imiwneiddio staff sydd ar gael ar system fewnrwyd y practis. Bydd hwn yn cael ei adolygu a'i ddiweddarau. 	<p>Robert Parton</p> <p>Robert Parton</p>	<p>Wedi gweithredu eisoes</p> <p>1 mis</p>
<p>Rhaid i'r practis gynnal archwiliad o gofnodion meddygol y cleifion er mwyn sicrhau bod y codau Read priodol yn cael eu defnyddio ac i dynnu sylw at unrhyw feysydd y gallai fod angen eu gwella.</p>	<p>3.3 Gwella Ansawdd, Ymchwil ac Arloesi</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Mae'r practis fel rhan o brosiectau QI yn adolygu'r codau ar gyfer cofnodion y cleifion. Caiff hyn ei drafod a'i gofnodi yn y cyfarfodydd practis wythnosol i sicrhau bod yr holl staff yn codio'r cofnodion yn gywir. 	<p>Christopher Bryant</p>	<p>Parhaus</p>

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth

Enw (priflythrennau): Amanda Berry

Teitl swydd: Rheolwr y Practis

Dyddiad: 22 Mehefin 23